



Asiantaeth Safonau Bwyd

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cymru

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Asiantaeth Safonau Bwyd

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cymru

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020



© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i <http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/>

Mewn manau lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom mewn e-bost at financial.accounting@food.gov.uk.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi ar ein gwefan drwy www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/adroddiadau-a-chyfrifon

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Wedi'i argraffu yn y Deyrnas Unedig (DU) gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Cynnwys

ADRODDIAD PERFFORMIAD

Ein blwyddyn mewn rhifau	4
Trosolwg	6
Rhagair	8
Rhagair y Cadeirydd	8
Rhagair gan y Prif Weithredwr	11
Ein gweithgareddau a'n perfformiad yn ystod 2019/20	14
Ein blaenoriaethau strategol	14
Y prif risgiau ac elfennau ansicrwydd	73
Dadansoddi Perfformiad	77
Camau gorfodi ffurfiol (Cymru, Lloegr)	77
Camau gorfodi ffurfiol (Gogledd Iwerddon)	78
Erlyniadau	78
Cwynion gan gynnwys y rhai a wnaed i Ombwdsmon y Gwasanaeth Seneddol ac Iechyd	79
Adrodd ar gynaliadwyedd	80

Saesneg yn unig o hyn ymlaen

ACCOUNTABILITY

Directors' report	88
Details of the Board and Directors	88
Management commentary	91
Statement of Accounting Officer's responsibilities	95
FSA governance statement	96
Remuneration report	108
Summary of Resource and Capital Outturn	121
The Certificate and Report of The Comptroller and Auditor General to The Welsh Parliament	122

Accounts

Financial statements **128**
Statement of Comprehensive Net Expenditure 128
Statement of Financial Position 129
Statement of Cash Flows 130
Statement of Changes in Taxpayers' Equity 131
Notes to the Departmental Resource Accounts **132**



.....

Adroddiad Perfformiad

.....

Ein blwyddyn mewn rhifau

Cost net yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn 2019/20:

£112.6 miliwn

Gweithgarwch a pherfformiad ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:



Amcangyfrif o'r achosion sy'n gysylltiedig â chlefydau a gludir gan fwyd:

2.4 miliwn

yn y DU



Amcangyfrif o gost salwch a gludir gan fwyd i'r gymdeithas:

£9.1 biliwn

£3 biliwn – 13 o bathogenau a gludir gan fwyd.

£6 biliwn – salwch a gludir gan fwyd heb ei briodoli



Tracio agweddau'r cyhoedd:

73%


o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r ASB ac yn ymddiried ynnddi i wneud ei gwaith



Cofrestru busnesau bwyd:

152


allan o 384 o awdurdodau lleol wedi'u cysylltu â gwell gwasanaeth ar-lein



Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

£19 miliwn

o gyllid ychwanegol wedi'i glustnodi i gefnogi paratodau'r ASB



Gorsensitifrwydd i fwyd:

£4.6 miliwn

o gyllid ar gyfer gweithgareddau allweddol yn 2019/20 a 2020/21



Llwyddodd rhagor o fusnesau sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr i gael sgôr hylendid bwyd o 5 ('Da iawn'):

72.0%



Gweithredwyr busnesau bwyd cig:

97.9%

o fusnesau cig wedi eu sgorio'n 'foddhaol' neu'n uwch o ran cydymffurfio.




Yr ASB wedi ei hysbysu am
2,479
o ddiwyddiadau halogi
bwyd, bwyd anifeiliaid a'r
amgylchedd, ac wedi
ymchwilio iddynt.



Diogelwch bwyd yn y cartref:
67%
o'r ymddygiadau yr adroddir
amdanynt yn unol â'r arferion
diogelwch bwyd a argymhellir
(arolwg Bwyd a Chi)



Troseddau Bwyd:
200+
o bobl wedi'u rhybuddio gan
yr Uned Genedlaethol
Troseddau Bwyd am risgiau
'llosgi braster' DNP ar ôl
iddynt ei brynu (yn honedig)



Teledu cylch cyfyng ym mhob
lladd-dy:
234
Cadarnhaodd pob
gweithredwr busnes yn Lloegr
eu bod wedi gosod system
teledu cylch cyfyng sy'n
cydymffurfio fel rhan o'r
Cynllun Gweithredu Lles
Anifeiliaid



Maeth Gogledd Iwerddon:
11,986
yn rhagor o ryseitiau wedi'u
hychwanegu at MenuCal
gan ddefnyddwyr




Cyfanswm gwariant yr ASB ar
wyddoniaeth ac ymchwil
£12.7 miliwn

Bod y sefydliad gorau y gallwn ni fod:



Adran o'r Gwasanaeth Sifil sy'n
'Perfformio'n Uchel':
67%
sgôr ymgysylltu â gweithwyr
yn Arolwg Pobl y
Gwasanaeth Sifil



Cyflawni strategaeth dyfarnu
tâl newydd:
1.5%
O gynnydd isafswm mewn
cyflog sylfaenol wedi'i warantu
ar gyfer staff cymwys

Mae rhagor o fanylion am y rhain a gweithgareddau a pherfformiad eraill i'w gweld isod.

Trosolwg

Mae'r trosolwg hwn yn nodi ein pwrpas, ein swyddogaethau allweddol a'n gweledigaeth.

Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yw'r adran annibynnol o'r Llywodraeth sy'n gweithio ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Cawsom ein sefydlu yn 2000, yn dilyn cyfres o faterion diogelwch bwyd proffil uchel, gan gynnwys yr argyfwng BSE¹. Ein pwrpas yw sicrhau bwyd y gallwn ymddiried ynddo.

Mae mwy na 500,000 o fusnesau bwyd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon², ac mae hanner ein bwyd yn dod i mewn o wledydd eraill. Mae'r diwydiant bwyd a'r ffordd y mae'r ASB yn gweithredu yn newid yn gyflym iawn. Rydym ni'n parhau i flaenoriaethu ein diwygiad o'r model cyflenwi rheoliadol fel ei fod yn ystwyth yn wyneb risgiau newydd, ac mae'n parhau i weithio'n well i bawb, gan gynnwys ar ôl i ni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Rydym ni'n anelu at gael y cydbwysedd cywir rhwng diogelu rhag risg, cefnogi dewis defnyddwyr, a chefnogi twf busnes ac arloesi, tra hefyd yn rheoleiddio mewn ffordd effeithiol, gymesur a chynaliadwy.

Ein prif swyddogaethau

Er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag peryglon iechyd a gludir gan fwyd, rydym ni'n:

- dylunio ac yn cynnal y rheoliadau y mae'n rhaid i fusnesau bwyd gydymffurfio â nhw
- cael sicrwydd bod busnesau yn dilyn y rheolau, a – phan nad ydyn nhw – rydym ni, neu ein partneriaid cyflenwi mewn awdurdodau lleol, yn eu cywiro neu'n gorfodi cosbau
- nodi, deall a lliniaru risgiau i iechyd y cyhoedd yn y system fwyd, gan gynnwys mewnfornion, trwy gadw gwyliadwriaeth
- defnyddio'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth orau, a gomisiynir yn uniongyrchol yn aml, i ddatblygu cyngor a dyfarniadau ar ddiogelwch bwyd
- cael gwybodaeth hanfodol am ddiogelwch bwyd i'r cyhoedd, fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus, er enghraifft trwy'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd
- gweithio gyda'r heddlu ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thwyll bwyd a throseddau bwyd, trwy gasglu gwybodaeth a galluoedd ymchwilio mewnol yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd
- cymryd rôl arweiniol yn rhyngwladol ar ddiogelwch a dilysrwydd bwyd, ar ran y DU

Rydym ni wedi ymrwymo i weithredu er budd y defnyddiwr, gyda didwylledd a thryloywder, a gweithio ar sail gwyddoniaeth a thystiolaeth.

1 Mae eneffalopathi sbyngffurf buchol (BSE), sydd hefyd yn cael ei gyfeirio ato fel clefyd gwartheg gwallgof, yn glefyd yr ymennydd sy'n gallu heintio gwartheg, defaid a geifr. Os yw pobl yn bwyta'r cig heintiedig hwn, gall arwain at salwch difrifol a hyd yn oed marwolaeth.

2 www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-19-09-18-annex-a-laems-report-for-2018-19.pdf

Ein gweledigaeth

Ein cenhadaeth gyffredinol yw sicrhau bwyd y gallwn ymddiried ynddo.

Mae gweledigaeth ein sefydliad yn cynnwys y nodau canlynol:

- mae bwyd yn ddiogel
- mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label
- gall defnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus am beth i'w fwyta
- mae gan ddefnyddwyr fynediad at ddeiet fforddiadwy, nawr ac yn y dyfodol – dim ond yng Ngogledd Iwerddon mae'r ASB yn gyfrifol am bolisi maeth

Egwyddorion rheoleiddio

Mae'r ASB yn sicrhau diogelwch bwyd yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Wrth wneud hynny, mae'r adran yn ymdrechu i fod yn rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern, trwy gadw at yr egwyddorion canlynol:

- Rydym ni'n rhagweithiol ac yn cael ein harwain gan risg, gan weithredu'n gymesur i liniaru effeithiau cyfredol a rhai y dyfodol ar iechyd y cyhoedd, gan achub ar gyfleoedd i hybu buddiannau defnyddwyr.
- Rydym ni'n seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth, gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r data mwyaf trylwyr a chyfoes.
- Rydym ni'n agored ac yn dryloyw wrth wneud penderfyniadau.
- Rydym ni'n gydweithredol fel mater o drefn.
- Rydym ni'n sefydliad sy'n sicrhau, gan wneud yn siŵr fod pawb yn y system fwyd yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau.
- Rydym ni'n rhyngwladol ein rhagolwg, gan gydnabod natur draws-wladol y diwydiant bwyd a'i gadwyni cyflenwi byd-eang.

Ein perfformiad ariannol

Ariennir yr ASB trwy'r broses Amcangyfrifon Cyflenwad flynyddol a reolir gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

Rydym ni hefyd yn cynhyrchu lefel o incwm o wasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid y sector allanol a'r sector cyhoeddus.

Rydym ni'n atebol i Drysorlys Ei Mawrhydi, y Senedd a'r cyhoedd am y ffordd yr ydym ni wedi defnyddio arian cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Bob blwyddyn, rydym ni'n cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol a'n cyfrifon cyfunol wedi'u harchwilio (ARA) i gefnogi atebolrwydd seneddol trwy gymharu gwir wariant ar adnoddau'r ASB â'r amcangyfrifon. Mae'r adran 'Cysoni gwariant adnoddau net rhwng amcangyfrifon, cyllidebau a chyfrifon' yn cynnwys rhagor o fanylion am alldro (*outturn*) yr ASB o'i gymharu â'i hamcangyfrifon.

Rydym ni'n cyhoeddi ein perfformiad ariannol yn seiliedig ar fframwaith cyfrifo'r llywodraeth yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr sydd i'w gael yn yr adran Cyfrifon.

Rhagair

Rhagair y Cadeirydd



Wrth i mi feddwl am yr adeg pan fyddwn i'n croesawu cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon diweddaraf yr ASB, roeddwn i wedi tybio y byddai Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) wedi dominyddu'r pynciau trafod mewn blwyddyn brysur iawn i'r ASB. Fodd bynnag, wrth imi ysgrifennu'r pwt hwn, mae'r Deyrnas Unedig (DU) yn wynebu argyfwng iechyd mwyaf yr oes fodern. Mae lledaeniad byd-eang y coronafeirws (COVID-19) wedi dod â set o heriau digynsail i'r Llywodraeth.

Mae galw ar holl adrannau'r Llywodraeth i gymryd mesurau eithriadol ar hyn o bryd i sicrhau y gall y gwaith hanfodol maen nhw'n ei wneud barhau. Rwy'n falch o ddweud bod yr ASB yn gwneud ei rhan i sicrhau bod pobl yn y DU yn parhau i gael bwyd diogel. Mae'r un gwytnwch a dyfeisgarwch a oedd yn rhan o baratodau Brexit yr adran dros y flwyddyn ddiwethaf i'w gweld eto wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae gan yr ASB 20 mlynedd o brofiad mewn rheoli digwyddiadau a chyfathrebu risg, sydd wedi'i ategu gan bwysau gwyddoniaeth yr ASB. Mae gennym ni'r gallu, yr arbenigedd, a'r perthnasoedd gyda'r diwydiant bwyd ac adrannau gorfodi awdurdodau lleol i sicrhau nad yw diogelwch bwyd yn dod yn broblem i ddinasyddion y DU yn ystod yr argyfwng hwn.

Er ein bod yn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd gan wynebu cyfres o heriau digynsail sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws, ymadawiad y DU o'r UE sydd wedi dominyddu agenda fy Mwrdd dros y 12 mis diwethaf. Amcan yr ASB oedd paratoi ar gyfer Brexit, a gwaith y Bwrdd oedd gosod yr egwyddorion y byddem ni'n bwrw ymlaen â nhw, craffu ar gynlluniau gweithredu a'u cyflawni, a sicrhau bod yr adran yn parhau i roi buddiannau defnyddwyr yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon wrth wraidd ein rôl y tu allan i'r UE. Aethom ni ati i osod pedair egwyddor allweddol: cynnal neu wella effeithiolrwydd wrth ddiogelu iechyd y cyhoedd; cynnal hyder mewn diogelwch bwyd a'r drefn reoleiddio; lleihau unrhyw darfu ar ddefnyddwyr a'r diwydiant; ac alinio ag egwyddorion Strategaeth Rheoleiddio'r ASB.

Er gwaethaf yr ansicrwydd a ddaeth gydag ymestyn dyddiad ymadael y DU â'r UE dair gwaith, cyflawnodd yr ASB ein hamcanion Brexit: roedd trefn reoleiddio gadarn ac effeithiol ar waith, yn barod i fabwysiadu'r swyddogaethau a gyflawnwyd gan yr UE; cafodd offerynnau statudol eu gosod a'u llunio i sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir (*retained EU law*) yn gweithio'n iawn; ac mae gallu a gwytnwch parhaus wedi'i wella i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau bwyd. Roedd hyn oll yn gyflawniad enfawr i dimau'r ASB a gyfrannodd. Wrth gwrs, nid yw'r trefniadau hyn eto wedi'u profi mewn sefyllfa go iawn, ond maent yn fframio ein dyhead i gyflawni'r drefn reoleiddio fwyaf agored a thryloyw yn y byd, sy'n gweithredu er budd y defnyddiwr ac sydd wedi'i harwain gan wyddoniaeth a thystiolaeth.

Ymadawodd y DU â'r UE ar 31 Ionawr 2020, a bydd y cyfnod pontio yn parhau tan ddiwedd mis Rhagfyr. Yn ystod yr amser hwn, bydd yn rhaid i'r ASB ddarparu rhaglen sylweddol o waith, wedi'i chymhlethu ymhellach gan y ffaith fod yr ymadawiad yn effeithio'n wahanol ar y tair

gwlad yr ydym ni'n gyfrifol amdanynt, a'n mandad amrywiol ym mhob un ohonynt. Byddwn ni'n rheoli'r drefn reoleiddio diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid o dan y telerau a nodir yn y Cytundeb Ymadael, ac yn cynrychioli defnyddwyr yn gryf mewn trafodaethau traws-Whitehall. Bydd fy Mwrdd yn parhau i hyrwyddo budd y defnyddiwr, yn craffu ar gynnydd, ac yn sicrhau bod yr adran yn cyflawni ar ei hymrwymiad i gynnal y safon uchel o ran diogelwch bwyd a diogelu defnyddwyr yr ydym ni'n ei mwynhau yn y DU.

Trwy gydol y llynedd, bu gwaith yr ASB ar orsensitifrwydd i fwyd yn flaenoriaeth strategol allweddol ac mae llawer wedi'i gyflawni i gefnogi'r rhai sy'n byw gydag alergeddau.

Mae pawb yn haeddu bwyd y gallant ymddiried ynddo, a phan fydd person yn byw gyda gorsensitifrwydd i fwyd a all achosi niwed difrifol, neu hyd yn oed fygwth ei fywyd, daw'r ymddiriedaeth honno hyd yn oed yn bwysicach. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r ASB wedi gweithio mewn partneriaeth agos ag ystod eang o randdeiliaid, gan ddatblygu rhaglen waith barhaus a helaeth ar alergeddau i ddiogelu defnyddwyr yn well, ehangu eu dewisiadau a chefnogi busnesau i sicrhau cydymffurfiaeth.

Mewn cyfarfod Bwrdd eithriadol ym mis Mai 2019, gosodwyd y cyfeiriad ar gyfer strategaeth gorsensitifrwydd i fwyd yr ASB, gan hyrwyddo uchelgais i'r DU fod y lle gorau yn y byd i fod yn ddefnyddiwr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd. Ers hynny mae'r ASB wedi rhoi diogelwch, ymddiriedaeth a dewis wrth wraidd ei gwaith yn y maes hwn, gan ei gwneud yn arweinydd byd-eang o ran mynd i'r afael ag alergeddau bwyd.

Ym mis Chwefror 2020, fe gynhaliom ni ein symposiwm alergedd bwyd cyntaf, a ddaeth â'r diwydiant, cyrff gorfodi a defnyddwyr ynghyd i drafod ystod o faterion yn ymwneud â rheoli gorsensitifrwydd i fwyd. Roedd hwn yn gyfle gwych i glywed gan fwy na 100 o gynrychiolwyr o brif sectorau'r diwydiant bwyd, swyddogion gorfodi awdurdodau lleol, arbenigwyr clinigol ar alergenau a grwpiau defnyddwyr ar gyfer alergeddau. Roedd y digwyddiad yn garreg filltir wrth osod agenda ar y cyd ar sut rydym ni'n mynd i'r afael â heriau alergeddau ac anoddefiadau bwyd.

Mae sicrhau mesurau syml yn iawn yn diogelu ac yn magu hyder defnyddwyr gryn dipyn. Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn enghraifft wych o hyn. Mae'n parhau i fod yn stori lwyddiant i'r ASB. Roedd 72% o fusnesau bwyd yn cyflawni'r sgôr uchaf o 5 y llynedd, tra bod bron i 96% â sgôr o 3 neu uwch. Mae hyn yn newyddion gwych i'r busnesau hynny, i'w cwsmeriaid, ac i iechyd y cyhoedd yn gyffredinol. Mae'n ychwanegu pwys pellach i'n dadleuon i'w gwneud yn orfodol i arddangos sgoriau yn Lloegr, fel sydd wedi bod yn wir yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon ers cryn amser. Mae'r ffigurau diweddaraf yn yr adroddiad hwn yn dangos i ni mai 52% o fusnesau yn Lloegr oedd yn arddangos sgoriau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn eu safleoedd, o'i gymharu ag 88% yng Nghymru a 76% yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cefnogi ein safbwynt ar arddangos gorfodol, a gobeithio y gwelwn ni gynnydd gyda'r mater hwn yn y flwyddyn i ddod.

Mae newidiadau wedi bod o fewn uwch arweinyddiaeth yr ASB yr hoffwn eu cydnabod. Fe wnaethon ni ffarwelio ag aelodau'r Bwrdd Paul Williams, Stewart Houston a Rosie Glazebrook, gyda phob un wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r Bwrdd a sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Gwelsom hefyd ymdeoliad ein Prif Weithredwr Jason Feeney ar ddiwedd gyrfa 38 mlynedd yn y Gwasanaeth Sifil. Roedd Jason yn Brif Swyddog Gweithredol rhagorol, yn ystod ambell i flwyddyn heriol iawn, ac mae'r Bwrdd yn ddiolchgar iawn am ei arweinyddiaeth. Ymunodd Emily Miles â ni fel

ein Prif Weithredwr newydd ac mae eisoes wedi disgleirio gyda'i chyfuniad o fewnwelediad strategol, ffocws ar gyflawni, ac wrth lywio heriau rheoleiddio cymhleth a newydd. Rydym ni'n falch iawn o gael Emily yn arwain yr adran.

Byddaf yn gadael yr ASB yn yr hydref i ddod yn Feistr ar Goleg Sant Ioan, Caergrawnt. Hwn fydd fy rhagair olaf i'n Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon. Mae wedi bod yn fraint ac yn bleser arwain yr ASB i mewn i'w thrydydd degawd. Mae gan yr adran Fwrdd cryf a thîm gweithredol rhagorol, gyda chefnogaeth ymroddedig ac arbenigol cydweithwyr gweithgar ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dylai'r tîm cyfan fod yn falch iawn o'u cyflawniadau, yn aml mewn sefyllfaoedd heriol, yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Pan ymunais â'r Bwrdd yn 2015, nid oedd gen i fawr o syniad o'r heriau a fyddai o'n blaenau.

Ond mae'r rhain hefyd wedi creu cyfleoedd, i adfywio ein sylfaen wyddoniaeth, i ganolbwyntio ar heriau ieched newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg fel gorsensitifrwydd i fwyd, ac i ddechrau moderneiddio'r drefn reoleiddio, fel ei bod yn gwneud gwell defnydd o ddata, gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol y rhai sy'n gweithredu rheolaethau.

Rwy'n hynod falch bod perthynas yr adran â'r diwydiant y mae'n ei reoleiddio wedi cryfhau yn ystod y cyfnod hwn. Nid ydym yma i weithredu er budd y diwydiant, ond byddwn ni'n sicrhau gwell canlyniadau i'r defnyddiwr os oes gennym berthynas agored, onest a gwybodus â'r system fwyd gymhleth sy'n newid yn barhaus. Mae mwy i'w wneud eto. Gall y ffordd y mae'r gyfundrefn yn gweithredu ym mhedair gwlad y DU achosi cymhlethdod anfwriadol, nad yw'n gwneud lles i'r cyhoedd na'r diwydiant. Mae'r system fwyd fyd-eang wedi bod yn symud ar gyflymder a all ei gwneud hi'n anodd i reoleiddwyr ddal fyny gyda hi, a gall ymddygiad defnyddwyr newid mewn amser rhyfeddol o fyr hefyd. Bydd bywyd y tu allan i'r UE yn rhoi baich enfawr ar yr ASB, wrth i ni ystyried swyddogaethau helaeth sefydliadau'r UE, a wynebu'n uniongyrchol y llobio soffistigedig o ran buddiannau bwyd.

Bydd yr ASB yn ymateb orau i'r heriau hyn trwy gofio'r argyfwng BSE a arweiniodd at ein creu yn 2000. Cawsom ein sefydlu fel adran lywodraethol Anweinidogol, a roddwyd allan o gyrraedd cyfeiriad gwleidyddol yn fwriadol, fel y gallem weithredu'n agored ac yn gyson er budd y defnyddiwr. O'r dechrau, mae dwy nodwedd wedi bod yn sail i hyn: rydym ni bob amser yn gweithio ar sail gwyddoniaeth a thystiolaeth; ac rydym ni'n gweithredu'n agored ac yn dryloyw. Credaf fod ein hannibyniaeth o fewn y llywodraeth yn sylfaenol i allu'r ASB i gadw at y genhadaeth 'defnyddiwr yn gyntaf' hon, p'un ai wrth ddiogelu ieched y cyhoedd neu fuddiannau ehangach y defnyddiwr. Dylid gwerthfawrogi a diogelu'r annibyniaeth honno.

Wrth i mi ysgrifennu, mae'r ASB yn gweld ei lefelau uchaf erioed o ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Rydym ni am i bobl gael bwyd sy'n ddiogel a bwyd sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Mae'r ASB yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod pawb yn gallu ymddiried yn eu bwyd. Rwy'n hyderus y bydd yn parhau'n hir, ac yn dymuno'r gorau i'r Bwrdd, y Prif Weithredwr, a chydweithwyr yn y dyfodol.



Heather Hancock DL LVO
Cadeirydd, Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Rhagair gan y Prif Weithredwr



Rwy'n falch o osod gerbron Senedd Cymru a Senedd San Steffan, a chyflwyno i Gynulliad Gogledd Iwerddon, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae'n amlinellu ein perfformiad a'n gweithgareddau yn 2019/20 ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon am gost net o £112.6 miliwn.

Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn caniatáu i'r ASB fyfyrto ar flwyddyn gyffrous a phrysur, gyda llawer o gyflawniadau. Fodd bynnag, wrth i ni baratoi'r adroddiad hwn, mae'r ASB ynghyd â gweddill y llywodraeth yn canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig COVID-19. Gellir dadlau mai COVID-19 yw'r her fwyaf i'r Gwasanaeth Sifil ei hwynebu yn ystod y degawdau diwethaf, ac mae'r ASB wedi ymgynnull yn unol â hynny.

Rydym ni'n rheoli ein hymateb yn yr un ffordd ag y byddem ni'n delio â digwyddiad bwyd mawr, gan weithio mewn ffordd gydlynol i'r heriau y mae COVID-19 yn eu cyflwyno i'r gadwyn cyflenwi bwyd. Mae ein dull ni yn un a arweinir gan wyddoniaeth ac rydym ni'n rhoi diogelwch defnyddwyr wrth wraidd ein holl waith cynllunio, gan sicrhau bod gan y cyhoedd y cyngor sydd ei angen arnynt i reoli'r risgiau wrth brynu, wrth storio neu wrth baratoi bwyd. Rydym ni hefyd yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'r diwydiant bwyd i helpu busnesau i gynnal cyflenwadau bwyd heb gyfaddawdu ar ddiogelwch.

Er mwyn cyflawni ein nod o fod yn rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern, nododd Bwrdd a thîm gweithredol yr ASB dair prif flaenoriaeth i'r ASB ar gyfer 2019/2020: rhagweld, cynllunio ar gyfer a chyflawni canlyniadau ymadael â'r UE; cyflwyno'r rhaglen diwygio rheoleiddio bwyd; a gwneud ein gwaith bob dydd yn arbennig o dda.

Roedd paratoi ar gyfer ymadael y DU â'r UE wastad yn mynd i fod yn dâsg gymhleth, hyd yn oed heb oedi ac ansicrwydd y flwyddyn ddiwethaf. Ar ddiwedd y cyfnod pontio bydd angen i'r ASB gamu i'r adwy, i ymgymryd â rolau'r Comisiwn Ewropeaidd ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop. Mae hyn yn golygu ein bod wedi datblygu'r gallu a'r strwythurau i lunio'r dyfarniadau risg sydd, hyd yma, wedi'u llunio yn yr UE, ac mae'n golygu bod angen i ni fod yn barod i gefnogi gwahanol drefniadau ar gyfer mewnfario ac allfario bwyd i mewn ac allan o'r UE.

Ar gyfer 2019/20, neilltuodd y Trysorlys £19 miliwn ychwanegol mewn cyllid ar gyfer rhaglen Ymadael â'r UE yr ASB. Erbyn i ni ymadael â'r UE ar 31 Ionawr, roedd yr ASB wedi: creu cyfundrefn mewnfario ac allfario a fydd yn darparu sicrwydd diogelwch a dilysrwydd; ehangu ein gallu i ddelio â digwyddiadau bwyd a throseddau bwyd; a gwella ein galluedd gwyddoniaeth data a deallusrwydd artiffisial i liniaru'r posibilrwydd o golli mynediad at hysbysiadau risg yr UE. Cyflawnwyd hyn i gyd yn erbyn cefndir o ddyddiadau ymadael a oedd yn symud ac Etholiad Cyffredinol. Llwyddodd yr ASB i gyflawni'r amcanion hyn ac addasu i ddigwyddiadau wrth iddynt ddatblygu trwy'r flwyddyn. Rydym ni bellach yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, fel y gallwn fod ar flaen y gad o ran datblygiadau byd-eang mewn diogelwch bwyd a dylanwadu ar ddatblygu safonau rhyngwladol.

Mae gwyddoniaeth yr ASB yn parhau i fod yn ganolog i'n cyflawniadau. Eleni gwnaethom gyhoeddi ymchwil a oedd yn cynnig amcangyfrifon newydd o'r baich a achosir gan salwch a gludir gan fwyd yn y DU. Roedd hyn yn ganlyniad i raglen helaeth o waith a gynhaliwyd dros gyfnod o bum mlynedd a oedd yn darparu dealltwriaeth fanylach o effeithiau ehangach clefydau a gludir gan fwyd fel norofeirws, campylobacter a listeria.

Fe wnaethom ni hefyd fynd i'r afael â sut i reoleiddio'r gwerthiant o gynhyrchion Cannabidiol, neu CBD, sydd wedi dod yn fwyfwy poblogaidd, er eu bod yn aml heb awdurdodiad priodol. Fe wnaethom ddefnyddio'r canfyddiadau gwyddonol diweddaraf i ddatblygu canllawiau clir i ddefnyddwyr ar ddefnyddio CBD, gan eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am y cynhyrchion hyn. Fe wnaethom hefyd roi dyddiad cau o 31 Mawrth 2021 i'r diwydiant CBD gyflwyno ceisiadau awdurdodi bwyd newydd dilys. Roedd y dull dan arweiniad gwyddoniaeth hwn yn gam pragmatig a chymesur wrth gydbwysu diogelwch iechyd y cyhoedd â dewis defnyddwyr.

Fe wnaethom barhau i gyflawni wrth weithredu ein rhaglen diwygio rheoliadol, Rheoleiddio Ein Dyfodol. Mae defnyddio data i reoleiddio busnesau yn fwy effeithlon bob amser wedi bod wrth wraidd y rhaglen hon ac eleni fe wnaethom ni ddatblygu'r Ciplwg Unedig (*Unified View*), hwb data sy'n darparu rhestr o'r holl fusnesau bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n hysbys i'r ASB, ynghyd â chasgliad cynyddol o setiau data am y sefydliadau hynny. I ddechrau, rydym ni wedi cyflwyno'r gwasanaeth i ddefnyddwyr mewnol allweddol yn yr ASB.

Ar gyfer ein ffrwd waith Cofrestru Busnesau Bwyd, roedd 152 o awdurdodau lleol wedi'u cysylltu yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon â gwell gwasanaeth ar-lein erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau bwyd gofrestru, sefydlu a rheoli eu busnes.

Datblygiad pellach yn y rhaglen yw newid disgwyliadau o ran lefelau sgiliau proffesiynol, fel y gall awdurdodau cymwys ddefnyddio staff medrus yn effeithiol mewn busnesau bwyd a chynnig sicrwydd priodol. Rydym ni'n datblygu fframwaith cymhwysedd ar gyfer pawb sy'n ymwneud â rheolaethau bwyd swyddogol yn yr ASB, awdurdodau lleol, a gweithwyr sector preifat sy'n darparu sicrwydd y gellir ei ddefnyddio i lywio rheolaethau swyddogol. Rydym ni ar y trywydd iawn i fod wedi datblygu, ymgynghori ar a chytuno ar fanyleb cymhwysedd ar gyfer rheolaethau swyddogol arferol ac arbenigol erbyn mis Mawrth 2021.

Mae moderneiddio'r ffordd rydym ni'n rheoleiddio'r diwydiannau cig, gwin a llaeth hefyd wedi bod yn rhan o'n gwaith eleni. Mae'r Rhaglen Trawsnewid Gweithrediadau yn edrych ar sut y gallwn wella'r ffordd y mae hylendid bwyd a rheolaethau lles anifeiliaid yn cael eu gweithredu yn y sectorau hyn. Rydym ni eisiau trefn sy'n fwy seiliedig ar risg, sy'n cydnabod datblygiadau technolegol diweddar ac sy'n ymateb i anghenion newidiol defnyddwyr. Bydd gwaith yn parhau ar fodel gweithredu'r dyfodol dros y flwyddyn nesaf.

Rwy'n hynod falch bod cryn dipyn o dystiolaeth ym mhob tudalen o'r adroddiad blynyddol eleni o'r ASB yn gwneud ei gwaith bob dydd yn dda. Er enghraifft, rydym ni wedi gweithio'n galed dros y flwyddyn ddiwethaf i wella ansawdd bywyd pobl sydd â gorsensitifrwydd i fwyd, a hyn yn dilyn cyfres o farwolaethau trasig yn gysylltiedig ag alergeddau. Rydym ni wedi bwrw ymlaen â'r gofynion labelu ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, wedi diweddarau ein canllawiau alergeddau ar gyfer busnesau bwyd ac awdurdodau lleol, wedi cynnal symposiwm alergeddau cyntaf yr ASB, ac mae ein hymgyrch #HawddHoli wedi codi ymwybyddiaeth o'r rheolau labelu alergenau ymhlith defnyddwyr a busnesau.

Mae ymateb i ddigwyddiadau bwyd hefyd yn parhau i fod yn rôl hanfodol i'r ASB. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafodd 2,479 o ddigwyddiadau halogi bwyd, bwyd anifeiliaid a'r amgylchedd eu hadrodd i ni, a arweiniodd at gyhoeddi 178 o rybuddion. Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at pam ei bod yn hanfodol i ni flaenoriaethu ein capasiti digwyddiadau yn ein paratodau ar gyfer Ymadael â'r UE. Wrth i bartneriaethau masnachu newydd ddatblygu

ledled y byd, mae'n hanfodol bod defnyddwyr y DU yn parhau i fod â hyder yn y bwyd maen nhw'n ei brynu, felly mae'n hanfodol ein bod ni'n cynnal ein gallu i nodi a delio â phroblemau yn y gadwyn cyflenwi bwyd.

Gan mai dyma fy adroddiad blynyddol cyntaf, hoffwn ddiolch i'r staff, i'r Bwrdd ac i'n partneriaid am estyn croeso mor gynnes i mi ers i mi ymuno â'r ASB. Mae brwdfrydedd ac ymroddiad y rheiny i mi gwrdd â nhw ar draws yr ASB, a'n partneriaid, wedi creu cryn argraff arnaf.



Emily Miles

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Ein gweithgareddau a'n perfformiad yn ystod 2019/20

Yr ASB: Bod yn rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern

Yn 2019 fe wnaethom ni nodi blaenoriaethau hyd at 2020 i gyflawni pwrpas statudol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Dyma'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan Fwrdd a thîm gweithredol yr ASB.

Bydd ein cynllun busnes corfforaethol blynyddol, sy'n manylu ar y blaenoriaethau ac sy'n dilyn y nodau strategol y mae'n eu nodi, yn ein helpu i gyflawni ein huchelgais o fod yn rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern yn ogystal â chyflawni ein prif flaenoriaethau. Yn yr adran hon o'n hadroddiad blynyddol, rydym ni'n nodi ein gweithgareddau a'n perfformiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 yn erbyn y blaenoriaethau hynny, y canlyniadau strategol a'u galluedd cysylltiedig.

Ein blaenoriaethau strategol

Roedd ein perfformiad yn 2019/20 yn gynnydd da yn erbyn pob un o'r tair blaenoriaeth strategol a osodwyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2019³ ynghyd â'r flaenoriaeth gorsensitifrwydd i fwyd fel y cytunwyd yng nghyfarfod eithriadol y Bwrdd ym mis Mai 2019⁴:



Cyflawni ein cynllun ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'i ymgorffori



Gwella ansawdd bywyd i bobl sy'n byw gyda gorsensitifrwydd i fwyd a'u cefnogi i wneud dewisiadau diogel a gwybodus i reoli risg yn effeithiol



Model rheoleiddio newydd sy'n rhoi mwy o gyfle i ni ddiogelu defnyddwyr o fewn y system fwyd fyd-eang sy'n esblygu'n gyflym



Wrth ddarparu rhaglenni newid sylweddol, rhaid i ni gynnal ein perfformiad fel rheoleiddiwr cenedlaethol

3 Papur Bwrdd mis Mawrth 2019: www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-19-03-17-corporate-priorities-and-budget-for-19-20-final.pdf

4 Gwylwch gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2019: www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-may-2019

Amcan cyffredinol

Cyflawni ein cynllun ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'i ymgorffori



YMADAEL
Â'R UE





Amcanion cyffredinol:

Ein prif flaenoriaeth yw sicrhau bod bwyd yn parhau i fod yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Bydd safon uchel o ran diogelwch bwyd a diogelwch defnyddwyr yn cael ei gynnal wrth i'r DU ymadael â'r UE, a bydd y drefn reoleiddio yn parhau i fod yn effeithiol wrth ddiogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.

Amcan ar gyfer 2019/20:

Sicrhau bod yr ASB yn barod ac wedi paratoi ar gyfer Ymadael â'r UE

Cafodd hyn ei fesur yn erbyn yr egwyddorion canlynol i sicrhau bod ein hamcan statudol o ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yn cael ei gyflawni:

 <p>Effeithiolrwydd wrth ddiogelu iechyd y cyhoedd</p>	 <p>Cynnal hyder mewn diogelwch bwyd a'r drefn reoleiddio</p>
 <p>Lleihau amhariad ar ddefnyddwyr a'r diwydiant</p>	 <p>Alinio ag egwyddorion Strategaeth Rheoleiddio yr ASB</p>

Yn dilyn ymadawriad y DU â'r UE, ein hamcanion ar gyfer y cyfnod pontio yw:

- Sicrhau dealltwriaeth o'r newidiadau sydd eu hangen yn ystod y cyfnod pontio a chefnogi gweithrediad y rhain ar draws yr ASB.
- Cynrychioli ein hamcanion strategol yn nhrefnadaethau Ymadael â'r UE.
- Ymateb i'r trafodaethau, deall effeithiau posibl newid safleoedd negodi a chynrychioli ein safbwyntiau wrth i'r rhain esblygu.
- Cynllunio a gweithredu'r newidiadau sy'n ofynnol o'r trafodaethau wrth i'r rhain ddod yn glir ac yn sicr.
- Deall a dylunio'r newidiadau penodol sy'n ofynnol mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, gan gynnwys goblygiadau Protocol Gogledd Iwerddon, a gweithredu newidiadau yn seiliedig ar y dyluniadau hyn.








Cyllid

2019/20
€19.0
miliwn

2020/21
€14.6
miliwn

Cawsom gyllid ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer Rhaglen Ymadael â'r UE (sydd bellach yn cael ei galw'n rhaglen 'Bontio'r UE') o waith, y byddwn yn parhau i adrodd arni i Drysorlys Ei Mawrhydi. Yn 2019/20, fe wnaethom ni ddefnyddio'r cyllid i gefnogi 27 o awdurdodau iechyd lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd trwy rannu cyllid i gefnogi eu paratodau i ymadael.

Cynnydd yn erbyn amcanion

	<p>Gwnaethom gyflenwi cyfundrefn fewnforio/allforio effeithiol. Roedd y gyfundrefn hon yn rhoi sicrwydd o ddiogelwch a dilysrwydd mewnforion bwyd. Buom yn gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) i brofi system mewnforio cynhyrchion, anifeiliaid, bwyd a bwyd anifeiliaid newydd y DU (IPAFFS).</p>
	<p>Fe wnaethom ni osod a llunio Offerynnau Statudol i sicrhau ymarferoldeb cyfraith yr UE a ddargedwir (<i>retained EU law</i>)</p>
<p>Gwella ein gallu a'n gwytnwch parhaus i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau bwyd a throeddau bwyd trwy ddarparu:</p> <div style="display: flex; justify-content: space-around; align-items: flex-start;"> <div style="text-align: center;">  <p>Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd sydd wedi'i gwella'n sylweddol</p> </div> <div style="text-align: center;">  <p>Systemau gwyliadwriaeth newydd</p> </div> <div style="text-align: center;">  <p>Mwy o gapasiti i ymateb i ddigwyddiadau</p> </div> </div> <div style="display: flex; justify-content: space-around; align-items: flex-start; margin-top: 20px;"> <div style="text-align: center;">  <p>System newydd ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid</p> </div> <div style="text-align: center;">  <p>System rheoli perthnasoedd gryfach</p> </div> </div>	



Casglu gwybodaeth a chadw gwyliadwriaeth

Mae'r DU yn ymadael â'r UE yn golygu bod angen i ni geisio gwneud yn iawn am golli mynediad at hysbysiadau risg a newidiadau sy'n gysylltiedig â chytundebau rhannu data. Yn ystod 2019/20 rydym ni wedi gwella ein galluedd gwyddoniaeth data a deallusrwydd artifffisial, gan ein galluogi i roi datrysiadau arloesol ar waith i ddiwallu anghenion defnyddwyr. Rydym ni wedi adeiladu sawl datrysiad technegol i helpu i nodi bwyd a bwyd anifeiliaid peryglus a fewnforir i'r DU o wledydd yr UE a gwledydd y tu allan i'r UE. Mae'r datrysiadau technegol hyn yn monitro sawl ffynhonnell ddata ledled y byd yn rheolaidd gan chwilio am rybuddion sy'n gysylltiedig â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae cyfuniad o gasglu data, dadansoddi data a rhannu gwybodaeth a dynnwyd o'r data, ynghyd â modelau rhagfynegol i nodi risgiau, yn caniatáu i dimau'r ASB wneud penderfyniadau a chymryd camau yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd drwy ddata.



Ymgorffori ein dull dadansoddi risg yn y busnes

O 1 Ionawr 2021, bydd yr ASB (gyda Safonau Bwyd yr Alban) yn gyfrifol am lawer o'r swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan y Comisiwn Ewropeaidd ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop. Rydym ni wedi sefydlu proses dadansoddi risg drylwyr a thryloyw i ddarparu cyngor diogelwch bwyd ac argymhellion rheoli risg annibynnol. Ein nod oedd mireinio gweithdrefnau gweithredol manwl sy'n sail i'r broses i'w hymgorffori a'u gweithredu'n effeithiol. Rydym ni wedi cyflawni'r elfennau allweddol canlynol sydd wedi helpu i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau newydd hyn:

Adolygu'r canllawiau cyfathrebu risg sydd ar gael a'r llenyddiaeth academiaidd gyfredol

Cyhoeddi tudalennau gwe yn disgrifio'r broses dadansoddi risg

Ymgorffori cydweithio ar draws y DU, adrannau eraill y llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig, gan ffurfioli'r trefniadau gweithio presennol

Gwahaniaethu'n glir rhwng ein swyddogaethau asesu risg a rheoli risg

Ymgysylltiad a hyfforddiant staff a chanllawiau proses, gan ymgorffori egwyddorion dadansoddi risg

Ymgysylltu â'n Pwyllgorau Cynghori Gwyddonol ar eu rôl dadansoddi risg

Y broses ymgeisio am gynhyrchion sydd wedi'u rheoleiddio

Prawf gwytnwch mewnol o'r broses a'r egwyddorion lefel uchel a phrofi camau

Sefydlu'r Fforwm Cynghori ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid i ddarparu cyngor ar reoli risg



Adeiladu ein gallu ymgysylltu (yn fewnol, yn allanol, yn rhyngwladol)

Mae ein hymgyrch i ddod yn sefydliad mwy blaengar wedi ei chefnogi gan raglen o ymgysylltu parhaus, systematig ac ystyrlon gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys adrannau eraill, yn arbennig yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (DExEU), yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Safonau Bwyd yr Alban a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Rydym ni'n gweithio ar fforymau rhyngwladol i ddiogelu bwyd sy'n dod i mewn i'r DU ac i fod ar flaen y gad o ran datblygiadau rhyngwladol ym maes diogelwch bwyd. Ar yr un pryd, rydym ni'n dylanwadu ar safonau diogelwch bwyd rhyngwladol gan fod y rhain yn aml yn llifo mewn i safonau ac arferion trawswladol sydd yn eu tro yn effeithio ar safonau ac arferion y DU. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2019 yn nghyfarfod rhif 51 y Pwyllgor Codex ar Hylendid Bwyd (CCFH), llwyddodd y DU i sicrhau dau lwyddiant sylweddol wrth hyrwyddo testun tuag at ei fabwysiadu'n derfynol ym mis Gorffennaf 2020. Mae testun, y bu i ni arwain ar ei ddatblygiad, yn destun codex allweddol sy'n gosod y sylfaen ar gyfer hylendid bwyd o gynhyrchu cynradd i'r defnyddiwr terfynol trwy nodi'r dulliau a'r arferion hylendid da. Codex yw'r corff gosod safonau bwyd rhyngwladol, gyda'r cylch gwaith deul o ddiogelu iechyd defnyddwyr a sicrhau arferion teg mewn masnach ryngwladol.

Yn fewnol, rydym ni wedi cefnogi newid sefydliadol a diwylliannol. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno rhaglen helaeth o ymgysylltu â staff sy'n cynnwys cyfres o sesiynau briffio timau, gweithdai a gweithgareddau eraill i sicrhau bod ein pobl yn deall y rolau y mae gwahanol swyddogaethau'n eu chwarae a bod ganddynt ymdeimlad cynyddol o bwrpas.



Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd sy'n gweithredu'n llawn

Rydym ni wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn meysydd cyflawni gweithdrefnol, strwythurol a gweithredol. Mae hyn yn cynnwys:



Recriwtio, hyfforddiant a phrosesau cadarn sefydledig sylweddol wedi'u cefnogi gan derfynau a meini prawf risg cytunedig



Mae buddsoddiad sylweddol mewn datrysiadau sefydledig wedi arwain at roi systemau newydd ar waith, gan gynnwys systemau rheoli gwybodaeth ac ymchwiliadau o un pen i'r pen arall

Ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid yn unol â blaenoriaethau strategol, a datblygu cynlluniau '4P' (yn Saesneg Pursue, Protect, Prepare a Prevent):



Ymlid



Diogelu



Paratoi



Atal



Cryfhau ein dealltwriaeth o droseddau bwyd trwy ddadansoddi gwybodaeth (*intelligence*) gan arwain at Asesiad Strategol o Droseddau Bwyd diwygiedig ac olrhain perfformiad

Rydym yn parhau i sefydlu achos i'r Uned gael pwerau ychwanegol er mwyn sicrhau gallu ymchwilio cwbl awtonomaidd. Byddwn ni'n parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid plismona i gyflawni ein hamcanion gweithredol.

Y camau nesaf:

- Mae'r Cytundeb Ymadael yn rhoi eglurder ar y trefniadau y byddwn ni'n cyfrannu atynt yn ystod y cyfnod pontio, er mwyn cynnal perthynas â'r UE. Byddwn ni'n rheoli'r drefn reoleiddio diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid o dan delerau'r Cytundeb Ymadael ac yn paratoi ar gyfer trefniadau diwedd y cyfnod pontio.
- Rydym ni wedi sefydlu rhaglen Bontio ddiwygiedig ar gyfer ymadael â'r UE a fydd yn hyrwyddo'r gwaith hwn yn ystod y cyfnod pontio. Bydd y llywodraethu hwn yn sicrhau bod newidiadau sy'n codi, o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE, wedi'u hymgorffori'n llawn yn ein gwaith arferol.
- Pan ddaw'r rhaglen i ben, rhaid i ni sicrhau bod newidiadau wedi'u hymgorffori'n llawn yn y busnes ehangach. Mae hyn yn cynnwys gweithredu rhwymedigaethau sy'n berthnasol i'r ASB o dan y Protocol Newydd ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon.
- Nid yw'r holl newidiadau sy'n ofynnol ar gyfer ein rhaglen bontio ar ymadael â'r UE yn hysbys eto, ac ni fydd y rhain yn dod i'r amlwg yn sicr hyd nes bydd y trafodaethau wedi dod i ben. Gall unrhyw drafodaethau masnach sy'n digwydd ar yr un pryd â gwledydd eraill effeithio ar y gwaith hefyd. Bydd llawer o'r gwaith a fydd yn arwain at newidiadau dylunio sy'n effeithio ar draws ein gwaith i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio yn cael ei yrru gan y prosiectau trawsbynciol.

Amcan cyffredinol

Model rheoleiddio newydd sy'n rhoi mwy o gyfle i ni ddiogelu defnyddwyr o fewn y system fwyd fyd-eang sy'n esblygu'n gyflym

SICRHAU
CYDYMFFURFIAETH
BUSNESAU

Ym mis Ionawr 2020 aeth Bwrdd yr ASB ati i ystyried statws presennol rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol a chynnig camau nesaf ar gyfer ail gyfnod y gwaith ar ei newydd wedd sy'n dwyn y teitl 'Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau' a fabwysiadwyd yng nghyfarfod Bwrdd yr ASB ym mis Mawrth 2020 gyda ffocws ar:

- Fodel Gweithredu Targed
- cadw gwyliadwriaeth
- asesiad risg soffistigedig
- sgiliau ar gyfer y swydd.

Yn 2019/20 cafodd tair ffrwd waith allweddol eu blaenoriaethu fel rhan o raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol:

Cofrestru Busnesau Bwyd



Strategaethau Arolygu Cenedlaethol



Adolygiad o Gyflenwi Safonau Bwyd



Rydym ni wedi parhau â'n gwaith i ddatblygu Ciplwg Unedig (*Unified View*) ar fusnesau. Mae hwn yn hwb data sy'n darparu rhestr a gaiff ei rheoli o'r holl sefydliadau a safleoedd bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n hysbys i'r ASB. Rydym ni'n ei ddefnyddio i ddadansoddi setiau data o fusnesau bwyd sy'n cael eu cyfoethogi a'u cysoni gan ddata cysylltiedig â gwybodaeth fusnes o ffynonellau mewnol a thrydydd parti.

Fe wnaethom ni hefyd ddechrau adeiladu fframwaith cymhwysedd newydd ar gyfer pobl sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol (gweithgareddau sicrhau bwyd a bwyd anifeiliaid). Bydd hyn yn ymdrin â'r holl rolau perthnasol yn y sector cyhoeddus a phreifat, a bydd yn ystyried gofynion y dyfodol i gefnogi cynaliadwyedd y system reoleiddio.

Cofrestru busnesau bwyd ar-lein



Amcanion

- Proses gofrestru haws a chyflymach ar gyfer busnesau bwyd
- Gall awdurdodau lleol ddarparu cyngor a chanllawiau wedi'u teilwra i fusnesau newydd
- Gall awdurdodau lleol gasglu data cofrestru cyson ac o ansawdd uchel

Cynnydd



Pan ofynnwyd i fusnesau⁵ pa mor hawdd oedd hi i gofrestru eu busnes bwyd, o'r rhai a oedd:

- wedi cofrestru o'r blaen, dywedodd 76% o'r ymatebwyr eu bod yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' ac yn deall yr holl gwestiynau
- erioed wedi cofrestru o'r blaen, dywedodd 64% o'r ymatebwyr eu bod yn ei chael yn 'hawdd'



Roedd canlyniadau arolwg defnyddwyr ar-lein yn awgrymu llai o faich gweinyddol ar 152 allan o 384 o awdurdodau lleol sydd wedi'u cysylltu â'r system yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Gogledd Iwerddon



Helpu i lywio datblygiad polisi, gwneud penderfyniadau a thrin digwyddiadau bwyd



Rydym ni wedi defnyddio cymysgedd o gyfathrebu a negeseuon ar y cyd â sefydliadau eraill i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth


Strategaethau Arolygu Cenedlaethol



Amcanion

- Profi sut y gall Strategaethau Arolygu Cenedlaethol gyfrannu at reoleiddio busnesau sydd â nifer o safleoedd neu grwpiau busnes cydgysylltiedig sy'n cydymffurfio
- Gwerthuso dichonoldeb ac effaith Strategaethau Arolygu Cenedlaethol ar fwyd
- Lleihau lefel ac amllder ymyriadau gan yr awdurdod lleol er mwyn gallu targedu adnoddau busnesau sy'n peri fwy o risg i iechyd y cyhoedd yn well

Cynnydd



Rydym ni wedi datblygu tair safon ddrafft sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi fframwaith ar gyfer goruchwyllo a sicrhau Strategaethau Arolygu Cenedlaethol yn effeithiol



Rydym ni wedi gweithio gyda dwy bartneriaeth ac wedi datblygu eu cynigion ar gyfer profi mewn treialon byw yn 2020/21



Rydym ni wedi integreiddio goruchwyliaeth reoleiddio fwy cymesur yn seiliedig ar asesiad prif awdurdod o gydymffurfiaeth gan ddefnyddio adborth gan fusnesau perthnasol

⁵ Rhwng 1 Ionawr a 19 Chwefror 2020, ymatebodd cyfanswm o 211 o weithredwyr busnesau bwyd i'n harolwg allan o 3,500 o drafodion cofrestru posibl ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Adolygiad o Gyflenwi Safonau Bwyd



Amcanion

- Datblygu fframwaith cyflenwi rheoliadol newydd a fydd yn integreiddio gwybodaeth, risg ac ymyriadau ar sail rhaglenni i fod yn fwy effeithiol wrth dargedu materion a nodwyd yn y gadwyn cyflenwi bwyd
- Datblygu cynllun asesu risg newydd ar gyfer ymyriadau safonau bwyd
- Gwella canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a busnesau bwyd

Cynnydd



Gostyngiad mewn cynhyrchion niweidiol neu rai nad ydynt yn cydymffurfio sydd ar y farchnad



Cyfnewid gwybodaeth yn well ac yn fwy amserol rhwng yr ASB, awdurdodau lleol a phartneriaid rheoleiddio eraill



Alinio adnoddau gorfodi yn well i risgiau o fewn y gadwyn gyflenwi



Fe wnaethom ni gynnal 9 digwyddiad ymgysylltu gyda 165 o swyddogion awdurdodau lleol i brofi ein cynlluniau a'n dulliau ar gyfer y model cyflenwi newydd



Cynhyrchu cyfeirnod safonau bwyd y mae gan 880 o ddefnyddwyr fynediad ato ar hyn o bryd



Mireinio ein cynigion ar gyfer ystod o ddulliau rheoleiddio newydd a recriwtio ystod o awdurdodau lleol peilot i'w profi

Trawsnewid gweithrediadau

Mae'r rhaglen Trawsnewid Gweithrediadau wedi'i sefydlu i foderneiddio a gwella sut rydym ni'n rheoleiddio'r diwydiannau cig, gwin a llaeth.

Sbardunau newid

Er bod y model cyfredol yn parhau i sicrhau bod y rheolaethau hylendid bwyd a lles anifeiliaid gofynnol yn cael eu darparu'n gynhwysfawr, mae rhai agweddau y gellid eu gwella mewn model gweithredu diwygiedig.



Atebolrwydd

Mae angen i ni unioni cydbwysedd atebolrwydd rhyngom ni a'r diwydiant. Byddwn ni'n datblygu trefn sy'n fwy seiliedig ar risg a chydymffurfiaeth, trwy gynyddu cyfrifoldeb gweithredwyr busnesau bwyd wrth gynhyrchu bwyd diogel.



Gwerth am arian

Ar hyn o bryd rydym ni'n adennill 57% o'r costau ar gyfartaledd o'r diwydiant. Byddwn ni'n datblygu model gweithredu mwy cadarn, effeithlon a chynaliadwy sy'n gwneud y gorau o'n swyddogaeth sicrwydd rheoliadol.



Technoleg

Gan fod cyflymderau prosesu uwch a mwy o awtomeiddio yn cyflwyno cyfleoedd a heriau, byddwn ni'n gweithredu datrysiadau technolegol i wella cydymffurfiaeth â safonau bwyd ac i leihau'r risg i iechyd y cyhoedd.



Ymatebolrwydd

Wrth i anghenion defnyddwyr ddod yn fwy soffistigedig a thameidiog, byddwn ni'n datblygu arferion gwaith gwell gyda'r diwydiant i sicrhau ein bod yn ymwybodol o newidiadau o ran cynhyrchu bwyd cenedlaethol a rhyngwladol a'n bod ni'n gallu cynllunio ar gyfer y rhain.



Ymddiriedaeth a Diogelwch Bwyd

Er mwyn cynnal a gwella hyder defnyddwyr mewn diogelwch bwyd, byddwn ni'n ceisio datblygu protocolau sicrwydd newydd, gan archwilio'r cyfleoedd i rannu data a chyhoeddi data cydymffurfio er mwyn ennyn mwy o ymddiriedaeth yn y diwydiant.



Gan y gallai'r ffaith fod y DU yn ymadael â'r UE newid y cydbwysedd cynhyrchu rhwng y marchnadoedd allforio a domestig, yn ogystal â'r rheoliadau rydym ni'n cael ein llywodraethu ganddynt, byddwn ni'n datblygu model gweithredu yn y dyfodol sy'n gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael i ni gefnogi masnach ryngwladol.




Argaeledd adnoddau

Er mwyn lliniaru unrhyw bryderon am y cyflenwad o filfeddygon swyddogol ac adnoddau cynorthwywyr swyddogol yn y dyfodol, byddwn ni'n datblygu model gweithredu sy'n golygu llai o adnoddau ac a fydd yn newid y galw presennol.

Mewn ymateb i'r sbardunau hyn, ein nod yw moderneiddio a diwygio'r ffordd rydym ni'n gweithredu Rheolaethau Swyddogol trwy ddatblygu model gweithredu y dyfodol. Rydym ni'n ceisio cyflawni'r canlynol:



Model **sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar risg** sy'n ceisio sbarduno cydymffurfiaeth dan arweiniad y diwydiant, gydag ymateb cymesur a graddedig i'r lefelau goruchwyllo o ran dilysu a sicrwydd.



System wedi'i **llywio gan y broses o segmentu gweithredwyr busnesau bwyd** yn categorïau sy'n dibynnu ar y math o rywogaeth, a'r lefelau risg a chydymffurfiaeth, a fydd yn ei dro yn adlewyrchu'r costau a'r taliadau am Rheolaethau Swyddogol i weithredwyr busnesau bwyd.



Annog a galluogi diwylliant lle mae gweithredwyr busnesau bwyd yn gweithredu'n gyfrifol i sicrhau y caiff bwyd ei gynhyrchu'n ddiogel; hyrwyddo arloesedd a gwelliant parhaus ac annog y defnydd o dechnoleg i wella dulliau cynhyrchu a chefnogi'r broses o gasglu data.



Model gweithredu yn y dyfodol sy'n **effeithlon ac yn effeithiol**.



Gwell cydweithio a ffyrdd o weithio gyda chyrrff proffesiynol i gydnabod atebolrwydd y diwydiant wrth gynhyrchu bwyd diogel, ac i **helpu gweithredwyr busnesau bwyd** i gyflawni hyn trwy ddatblygu canllawiau a chyfarwyddiadau clir a thryloyw.



Model gweithredu yn y dyfodol a fydd yn **cefnogi'r sicrwydd sy'n angenrheidiol ar gyfer defnydd domestig ac ar gyfer gofynion masnach rhyngwladol** ar ôl y cyfnod pontio.

Gweithredu

Rydym ni'n bwriadu datblygu'r model gweithredu yn y dyfodol mewn nifer o gyfnodau, a fydd yn gwredu'r uchelgais a nodir uchod, dros y 3-5 mlynedd nesaf. Mae hyn yn debyg i fywyd y contract Partner Cyflenwi Gwasanaeth newydd (a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020⁶) ac erbyn diwedd y contract hwnnw, dylai'r gwaith o weithredu rheolaethau swyddogol ar gig, gwin a llaeth fod yn dra gwahanol.

⁶ <https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/news/contract-ar-gyfer-rheolaethau-swyddogol-cig-a-llaeth-a-ddarperir-gan-yr-asb-yn-cael-ei-ddyfarnu-i-eville-and-jones-ltd>

Amcân cyffredinol

Gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda gorsensitifrwydd i fwyd a'u cefnogi i wneud dewisiadau diogel a gwybodus i reoli risg yn effeithiol

GOR-
SENSITIFRWYDD
I FWYD

Amcanion cyffredinol:

Mae gwaith yr ASB ar orsensitifrwydd i fwyd yn flaenoriaeth strategol. Ym mis Mai 2019, cymeradwyodd Bwrdd yr ASB uchelgais tymor hir y dylai'r DU fod y lle gorau yn y byd i fod yn ddefnyddiwr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd yn dilyn nifer o farwolaethau cysylltiedig ag alergedd. Mae data ar y marwolaethau hyn yn anghyflawn, ond rydym ni'n ymwybodol o sawl achos bob blwyddyn ac mae'n ymddangos bod y rhai dan 24 oed yn wynebu risgiau uwch. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen dull strategol parhaus, cydgysylltiedig dros gyfnod hir. Wrth i ni ddatblygu ein metrigau a'n mesurau perfformiad, byddwn ni'n edrych ar arfer gorau mewn gwledydd eraill ac yn ystyried sut y gallwn ddiffinio ein huchelgais a mesur cynnydd yn well.

Themâu strategol:

Er mwyn cefnogi'r ymdrech i gyflawni uchelgais y Bwrdd, fe wnaethom ni ddatblygu gweledigaeth ar gyfer ein rhaglen a fydd yn cael ei chyflawni trwy'r themâu strategol hyn:

Diogelwch



Mae gan ddefnyddwyr wybodaeth gywir, hawdd ei deall i wneud dewisiadau diogel a gwybodus am fwyd. Mae busnesau bwyd yn deall eu cyfrifoldebau ac yn ymgorffori mesurau rheoli gorsensitifrwydd i fwyd mewn diwylliant diogelwch bwyd cryf

Ymddiriedaeth



Mae defnyddwyr yn ymddiried yn yr wybodaeth a ddarperir am alergeddau ac yn ei defnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus i reoli risg ac ymddiried bod camau gorfodi effeithiol ar waith

Dewis



Gwella dealltwriaeth a derbyniad y cyhoedd o orsensitifrwydd i fwyd, gan arwain at well dewis a chynhwysiant. Mae gan ddefnyddwyr fynediad at amrywiaeth o gynhyrchion a gwasanaethau bwyd

Cynnydd yn erbyn ein wyth blaenoriaeth:

Gweithredu'r gofynion labelu ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS)

Mae bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) yn fwyd a werthir o'r safle lle cafodd ei becynnu. Gall bwyd sy'n gallu dod o dan y categori hwn gynnwys pasteiod cig wedi'u paratoi ar y safle a brechedanau wedi'u paratoi a'u gwerthu ar yr un safle. Fe wnaethon ni ymestyn y cyfnod ymgysylltu â'r diwydiant, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid sy'n ddefnyddwyr er mwyn datblygu canllawiau i gefnogi'r gwaith o weithredu gofynion labelu PPDS newydd.

Llunio a blaenoriaethu strategaeth tymor hwy

Rydym ni wedi datblygu gweledigaeth, amcanion a ffrydiau gwaith allweddol, wedi sefydlu rhaglen ar draws yr ASB ac mae £4.6 miliwn wedi'i ddyrannu i ni ar gyfer gweithgareddau allweddol yn ystod 2019/20 a 2020/21.

Cyhoeddi canllawiau 'Bwyd mwy diogel, busnes gwell' (SFBB) diwygiedig ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd

Rydym ni wedi diweddarau ein canllawiau 'Bwyd mwy diogel, busnes gwell' poblogaidd i ymgorffori'r newidiadau ar gyfer bwydydd PPDS

Cyflwyno gofynion labelu ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS)

Gosodwyd Offeryn Statudol Defra gerbron y Senedd ar 5 Medi 2019 a bydd yn cychwyn yn ystod hydref 2021.

Rydym ni wedi diweddarau ein Canllawiau Technegol ar Labelu Alergenau ar gyfer busnesau bwyd ac awdurdodau lleol i adlewyrchu'r gofynion newydd.

Cychwyn prosiect i ddarparu teclyn i roi gwybod am adwaith alergaidd i fwyd (digwyddiad agos iawn neu 'near-miss')

Dechreuon ni gam darganfod y prosiect hwn ym mis Tachwedd 2019, ac fe ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020. Rydym ni wedi cynnal ymchwil defnyddwyr a rhanddeiliaid i lywio'r argymhellion ar ddiwedd y cyfnod darganfod.

Cydgrynhai canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol



Dyluniwyd canllaw drafft cychwynnol ac *aide-memoire* i sicrhau dull clir a chyson o arolygu. Bydd gwaith yn cael ei ddatblygu drwy ymgynghori ag awdurdodau lleol.

Blaenoriaethu a chomisiynu rhaglen ymchwil y dyfodol i gefnogi ein strategaeth



Cafodd Cylch Gorchwyl y Gweithgor ar Orsensitifrwydd i Fwyd ei gymeradwyo gan y Cyngor Gwyddoniaeth.

Fe lwyddon ni i gyflenwi'r rhaglen Ymchwil Alergeddau ac Anoddefiadau Bwyd presennol trwy ryddhau cyhoeddiadau mawr eu heffaith a deunyddiau cyfeirio ar alergenau.

Byddwn ni'n cynnal ymchwil ar amcangyfrif y costau ariannol mae pobl sydd â gorsensitifrwydd i fwyd yn eu hysgwyddo.

Bu i ni ddechrau prosiect ymchwil cymdeithasol sy'n archwilio i ba raddau mae busnesau yn mabwysiadu ac yn gweithredu rheolau labelu alergenau.

Rydym ni wedi comisiynu arolwg ar agweddau ac arferion a adroddwyd ar gyfer unigolion sydd â gorsensitifrwydd i fwyd i werthuso ansawdd bywyd. Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth beichiau gorsensitifrwydd i fwyd trwy amcangyfrifon 'parodrwydd i dalu'.

Digwyddiadau a champau cyfathrebu ac ymgysylltu a gynhelir gan yr ASB



Alergedd ac anoddefiad bwyd oedd prif thema ein derbyniad Seneddol ym mis Hydref 2019.

Roedden ni'n bresennol yn y Takeaway Expo, a oedd yn gyfle i ni hyrwyddo negeseuon ar alergeddau ac anoddefiadau bwyd.

Llwyddodd ein symposiwm alergedd bwyd i ddwyn ynghyd y diwydiant, cyrff gorfodi a defnyddwyr i arddangos arfer gorau, ymwybyddiaeth a sicrhau newid i wella bywydau defnyddwyr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd.

Fe wnaethom ni ddatblygu cylch nesaf ein hymgyrch ymwybyddiaeth gyda'r cyhoedd a'r diwydiant, ond oherwydd COVID-19, roedd yn rhaid i ni ohirio ein cynlluniau ar gyfer 2020.

Amcân cyffredinol

Wrth ddarparu rhaglenni newid sylweddol sy'n gysylltiedig ag Ymadael â'r UE a Rheoleiddio Ein Dyfodol, mae'n rhaid i ni gynnal ein perfformiad fel rheoleiddiwr cenedlaethol

GWNEUD EIN
GWAITH BOB
DYDD YN
ARBENNIG
O DDA

Amcanion cyffredinol:

Rhan o fod yn rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern yw'r defnydd cymesur o adnoddau i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, gan weithredu er budd y defnyddiwr yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol, a bod yn agored ac yn dryloyw bob amser. Rydym ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau gwerth rhagorol am arian trwy fod yn seiliedig ar risg, yn gadarn, a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar y wyddoniaeth a'r dystiolaeth fwyaf diweddar.

Mae parhau i wneud ein gwaith bob dydd yn arbennig o dda yn golygu bod angen i ni ganolbwyntio ar berfformiad – cyflawni ein cyfrifoldebau a datblygu, cynyddu a chyflawni ein galluoedd.

Cyflawni perfformiad:

Er mwyn cyflawni ein huchelgais i fod yn rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern, mae gennym:

Dargedau perfformiad cytunedig yn y Pwyllgor Busnes sy'n cael eu cynnwys yn ein hadroddiadau perfformiad ac adnoddau chwarterol

Mae'r rhain yn cael eu datblygu a'u hadolygu'n barhaus a byddant yn parhau i gael eu hasesu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r strategaeth a'i blaenoriaethau

Lle mae gan yr ASB reolaeth lawn dros berfformiad, cytunir ar dargedau

Rydym ni wedi gosod uchelgais mewn perthynas â chwarae rôl arweiniol gyda rhanddeiliaid (diwydiant a defnyddwyr), gan nodi na all yr ASB reoli'r canlyniadau hyn yn llawn

Cytunodd Pwyllgor Busnes yr ASB ar y set gyntaf o uchelgeisiau a thargedau ym mis Mehefin 2018

Bu trafodaethau parhaus ar fesurau ychwanegol trwy gydol 2019/20


Cyhoeddir yr holl adroddiadau perfformiad ac adnoddau fel papurau Bwrdd⁷, lle cyflwynir diweddariadau a chynnydd yn erbyn y mesurau hyn. Manylir ar feysydd allweddol ein perfformiad ar y tudalennau canlynol.

⁷ <https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/ein-bwrdd>


Clefyd a gludir gan fwyd

Cyfrifoldeb y bobl sy'n cynhyrchu ac yn cyflenwi bwyd yw sicrhau ei fod yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Amcangyfrifir yr effeithir ar tua 2.4 miliwn o bobl gan glefyd a gludir gan fwyd yn y DU bob blwyddyn, gan gostio mwy na £9.1 biliwn i'r economi. Isod, dangosir yr achosion mewn pobl a gadarnhawyd mewn labordy yn y DU o 2000 i 2019 o'r pedwar prif bathogen bacteriol. Dim ond ar gyfer lleiafrif o achosion a adroddir y caiff samplau eu hanfon i'w dadansoddi mewn labordy. Yn ogystal, mae'r ffigurau hyn ar gyfer achosion o unrhyw ffynhonnell a gadarnhawyd gan labordy, nid o fwyd yn unig.


Campylobacter




Escherichia coli O157



Salmonella



Listeria monocytogenes



Ffynhonnell: lechyd Cyhoeddus Cymru, lechyd Cyhoeddus Lloegr, Diogelu lechyd yr Alban ac Asiantaeth lechyd y Cyhoedd Gogledd Iwerddon.

Mae ychydig o amrywiad blynyddol o ran amllder clefyd a gludir gan fwyd i'w ddisgwyl. Oherwydd yr amrywiad hwn, mae Bwrdd yr ASB yn gosod lefelau sylfaen sy'n gweithredu fel y trothwyon ar gyfer gweithredu. Roedd pob un o'r pedwar pathogen wedi gostwng yn nifer yr achosion a gafodd eu cadarnhau mewn labordy yn y DU yn 2019, gan olygu bod yr holl bathogenau o dan y trothwyon presennol.

Cost salwch⁸

Roedd Bwrdd yr ASB eisiau deall effeithiau cymharol gwahanol gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â bwyd yn well, er mwyn helpu i flaenoriaethu ymyriadau iechyd y cyhoedd ochr yn ochr â materion fel hydrinedd (*tractability*) a chost.

Er bod y gwaith ar gost salwch yn cynrychioli gwelliant sylweddol o'i gymharu â'r model blaenorol, mae'n parhau i fod yn wyddoniaeth amherffaith. Gan ein bod ni'n defnyddio setiau data o wahanol gyfnodau a ffynonellau, nid yw cymaryddion yn berffaith. Fodd bynnag, mae ein dealltwriaeth yn parhau i ddatblygu wrth i wyddoniaeth a thystiolaeth newydd ddod i'r amlwg. Felly, mae'r gwaith hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cymariaethau teg, ond bydd angen barn arbenigol a gwybodus o hyd er mwyn ei gymhwyso wrth wneud penderfyniadau strategol.

Fe wnaethom ddefnyddio dull cost salwch i nodi ac amcangyfrif costau clefydau penodol i gymdeithas. Mae'r model hwn yn nodi costau uniongyrchol trin y clefydau a chostau anuniongyrchol fel colli cynhyrchiant oherwydd amser i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r model cost salwch a ddatblygwyd gennym hefyd yn cynnwys costau ariannol poen a dioddefaint y mae unigolion yn eu hwynebu trwy salwch a gludir gan fwyd. Mae crynodeb o'r prif ganfyddiadau i'w weld isod.

 **2.4**
miliwn

o bobl wedi dioddef o glefyd perffeddol heintus a gludir gan fwyd yn 2018

 **15,000**

o bobl wedi mynd i'r ysbyty oherwydd difrifoldeb eu symptomau neu gan eu bod yn gleifion sy'n agored i niwed yn 2018

 **217,000**

o'r 2.4 miliwn o achosion o salwch a gludir gan fwyd wedi mynd i weld meddyg teulu yn 2018

 **160**

o farwolaethau yn 2018 oherwydd salwch a gludir gan fwyd

 **£9.1**
biliwn

Cost cymdeithasol oherwydd salwch a gludir gan fwyd (2018). £3 biliwn – 13 pathogen a gludir gan fwyd. £6 biliwn – salwch a gludir gan fwyd heb ei briodoli

 **£8.9**
biliwn

Cost i unigolion a gofalmwyr yn 2018. Mae hyn yn cynnwys poen, galar a dioddefaint oherwydd salwch

 **£157.5**
miliwn

o gostau i fusnesau yn gysylltiedig ag amhariadau ar gynhyrchu oherwydd absenoldeb salwch yn 2018

 **£94.8**
miliwn

Cyfanswm y gost i'r Llywodraeth yn 2018, sy'n cynnwys costau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a chostau sy'n gysylltiedig ag absenoldeb o'r ysgol


 **£4,000**

Cyfarledd y gost fesul achos ar gyfer salwch a gludir gan fwyd yn DU yn 2018

⁸ Ymchwil yr ASB a gyhoeddwyd fis Chwefror 2020: <https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/news/ymchwil-yr-asiantaeth-safonau-bwyd-yn-awgrymu-amcangyfrifon-uwch-newydd-ar-gyfer-rol-bwyd-mewn-salwch-yn-y-deyrnas-unedig>

Arolwg manwerthu a menter rhannu data agored

Dechreuodd yr ASB brofi *Campylobacter* mewn cyw iâr ffres a gynhyrchir ac a werthir yn y DU ym mis Chwefror 2014.



o samplau yn ystod blwyddyn gyntaf y profion yn cynnwys *Campylobacter* ar groen gwddf ar lefelau uwch na 1,000 o unedau ffurfio *Campylobacter* fesul gram (cfu/g). Mae 18.4% ar gyfer presenoldeb 'lefel uchel' o *Campylobacter* yn gyfartaledd wedi'i bwysoli ar y farchnad o'r 9 prif fanwerthwr yn y DU.



Lefel uchel presenoldeb *Campylobacter* ymhlith y 9 prif fanwerthwr ym mis Hydref 2017 (y 3 mis olaf o brofi ar gyfer arolwg manwerthu'r ASB o brif fanwerthwyr), **gan nodi gostyngiad cyson yn y blynyddoedd rhwng hynny.**



Ers diwedd 2017, rydym ni wedi defnyddio data'r diwydiant i fonitro bod cynnydd wedi'i gynnal ar gyfer y 9 prif fanwerthwr. Rydym ni'n parhau i samplu ieir gan y manwerthwyr bach ac annibynnol.



Mae pob un o'r 9 prif fanwerthwr wedi samplu a phrofi ieir gan ddefnyddio protocol cyffredin y cytunwyd arno gyda'r ASB.

Darperir y data bob chwarter. **Ar gyfer pob chwarter, mae lefel uchel o ran presenoldeb *Campylobacter* wedi'i gynnal o fewn yr ystod 3.1% i 4.6%.**



Yn ogystal, mae'r 9 prif fanwerthwr yn cyhoeddi eu canlyniadau eu hunain ar eu gwefannau ar gyfer eu cwsmeriaid.

Hyd at fis Medi 2019, gwnaeth yr ASB sylwadau cyhoeddus ar ganlyniadau samplu manwerthwyr bob chwarter. Yn dilyn cais gan fanwerthwyr i adolygu'r trefniant hwn, rydym ni'n derbyn y bydd rhoi sylwadau ar ganlyniadau a thueddiadau dros gyfnod hirach yn fwy buddiol. Rydym ni wedi cytuno, felly, na fydd yr ASB yn rhoi sylwadau ar ganlyniadau a anfonir atom bob chwarter ond y byddem yn cyfeirio atynt yn ein diweddariad blynyddol i'r Bwrdd ar *Campylobacter*.

YMGYRCH

Nadolig

Nod: Cyn ac yn ystod cyfnod y Nadolig, targedu tri grŵp o bobl allweddol sy'n gwneud penderfyniadau trwy gwahanol fathau o weithgarwch er mwyn:

- rhoi hyder i'r rheiny sy'n coginio gartref i ddefnyddio bwyd dros ben y Nadolig yn ddiogel
- annog y rhai sy'n trefnu partiön Nadolig i edrych ar wefan food.gov.uk/sgoriau er mwyn gweld y sgoriau hylendid cyn mynd ati i drefnu
- codi ymwybyddiaeth ymysg cogyddion o'r risgiau o weini pâté afu/iau heb ei goginio'n llawn i ddefnyddwyr

Pryd: Tachwedd/Rhagfyr 2019

Gwariant: £25,000

Cogyddion cartref:

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch bwyd dros y Nadolig a chyfrannu at y sgwrs amserol ar wastraff bwyd, gwnaethom gyflwyno'r ymgyrch mewn partneriaeth â Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff a dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasu. Arweiniodd hyn at **gyrhaeddiad o 387,000 a 3.2 miliwn o gyfleoedd pellach i weld** yr ymgyrch trwy bartneriaethau eraill fel Sefydliad y Merched a Waitrose.

Unigolion sy'n trefnu partiön Nadolig

Fe wnaethom dynnu sylw at wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i'r rhai sy'n gwneud trefniadau partiön Nadolig y swyddfa a'u hannog i '**edrych cyn trefnu**'. Fe wnaethon ni dargedu gwefannau a chyhoeddiadau digwyddiadau a chreu fideo 'Parti Nadolig sâl', ar gyfer ymgyrch hysbysebion wedi'i thargedu ar Facebook ac Instagram. Arweiniodd y gweithgarwch at **3,851 o gliciau ar ddolen** food.gov.uk/ratings (cost fesul clic: £0.97). Y fideo Facebook oedd y pedwerydd ffynhonnell uchaf o draffig i wefan y CSHB yn ystod y cyfnod hwn.

Cogyddion

Arweiniodd ein gweithgarwch â phartneriaid ac ar y cyfryngau cymdeithasu at **2,800 o bobl yn edrych** ar y dudalen cyngor ar goginio pâté afu/iau.



Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk

#DoligDiogelDiwastraff

Coronafeirws (COVID-19)

Rydym ni'n defnyddio dull cymesur a seiliedig ar risg o gyflawni ein dibenion statudol – diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr trwy sicrhau bod busnesau'n darparu bwyd sy'n ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label – ac yn ddo'i hun mae hyn yn cefnogi nod ehangach y Llywodraeth o leihau pwysau ar y GIG. O ran gofynion a heriau argyfwng COVID-19, rydym ni wedi canolbwyntio ar gefnogi blaenoriaeth y Llywodraeth o sicrhau cyflenwad bwyd diogel i'r genedl. Rydym ni wedi cymryd camau prydlon, rhagweithiol a phragmatig i gyflawni hyn, ac mae'r diwydiant wedi cyd-weithio'n dda ac wedi tynnu sylw at yr hyn y mae angen i ni gyd fynd i'r afael â nhw a'u datrys.

Prif feysydd gweithgarwch yr ASB:

- rhoi cyngor i fusnesau⁹ a defnyddwyr am COVID-19 a'i berthynas â bwyd
- sicrhau y gall ffatrioedd cig weithredu gyda llai o staff fel bod y cyflenwad cig yn parhau¹⁰
- cefnogi awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd i weithredu gyda llai o staff ac i leihau nifer yr ymwelwyr a beichiau y gellir eu hosgoi mewn busnesau
- gweithio ar faterion polisi brys i gefnogi cyflenwad bwyd
- gofalu am iechyd a lles ein staff, gan gynnwys staff ein prif gontractiwr Eville and Jones¹¹

Mae ein cynlluniau a'n paratodau'n cynnwys helpu gydag adfer ac ailagor busnesau wrth i wyddoniaeth y llywodraeth nodi ei bod yn ddiogel gwneud hynny.

Er nad ydyn ni'n gwybod beth yw effeithiau tymor canolig COVID-19, mae'r ASB yn ymgymryd â gwaith, trwy ein grŵp sganio'r gorwel, i ddeall y newidiadau posibl yn y system fwyd a sut y gallwn geisio mynd i'r afael â nhw. Gall hyn gynnwys defnyddio rhagor o lwyfannau ar-lein, apiau rhannu bwyd a gwerthu bwyd ar y cyfryngau cymdeithasu, ac o bosibl defnyddio model cyfanwerthu/manwerthu cyfunol mewn rhai ardaloedd, gyda hyn i gyd yn newid y dirwedd y mae'r ASB yn ei rheoleiddio.

Yn ogystal, rydym ni'n nodi problemau'r dyfodol o ran labordai a samplu, cydymffurfiaeth busnesau bwyd, troseddau bwyd (risg o amnewid, risg o atchwanegiadau bwyd anghyfreithlon, peryglus neu dwyllodrus), grwpiau defnyddwyr bregus, newidiadau i sut a ble mae bwyd yn cael ei werthu a'i goginio a pharatoi ar gyfer y byd ar ôl i'r cyfyngiadau ddo i ben yn llawn. Mae hyn yn cynnwys edrych ar fodolau busnes newydd a gweld pa newidiadau ymddygiad defnyddwyr a fydd yn parhau y tu hwnt i'r argyfwng hwn, a sut y bydd amrywiadau economaidd yn effeithio ar ddefnyddwyr a busnesau bwyd.

Byddwn ni'n defnyddio'r amgylchiadau sy'n wynebu'r sector bwyd a bwyd anifeiliaid i fod yn arloesol a threialu dulliau newydd, lle mae'r gyfraith yn caniatáu, fel y gallwn ddysgu a symud ymlaen o'r profiad, gan allu parhau yn gryfach fel sefydliad ac yn ein perthnasoedd â'r diwydiant ac ar draws rhannau eraill o'r Llywodraeth.

9 Cyhoeddwyd ein tystiolaeth wyddonol a'n canllawiau ar COVID-19 mewn perthynas â bwyd ar 26 Mawrth 2020 ar gyfer y diwydiant bwyd: <https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/news/yr-asb-yn-cyhoeddi-canllawiau-ar-gyfer-busnesau-bwyd-ar-coronafeirws-covid-19>


10 Ym mis Ebrill 2020, gwnaethom roi cynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer y diwydiant cig mewn ymateb i'r coronafeirws <https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/news/yr-asb-yn-rhoi-cynlluniau-wrth-gefn-y-diwydiant-cig-ar-waith-mewn-y-mateb-ir-coronafeirws>

11 Mae'r cyflenwr hwn yn darparu rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau cig a llath cymeradwy yng Nghymru a Lloegr ar ran yr ASB

Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) yn cael ei weithredu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r cynllun yn darparu gwybodaeth am safonau hylendid busnesau bwyd adeg yr arolygiadau gan awdurdodau lleol. Mae'r cynllun yn berthnasol i fusnesau sy'n darparu bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, fel bwytai, tafarndai, caffis a manwerthwyr eraill. Yng Nghymru, mae masnachwyr busnes i fusnes hefyd wedi'u cynnwys yn y cynllun. Mae gwaith dadansoddi gan yr ASB wedi dangos bod cysylltiad rhwng sgoriau uchel â lefelau is o ficrobau mewn busnesau bwyd. Yn y pen draw felly, mae hyn yn lleihau'r risg o salwch a gludir gan fwyd pan fydd defnyddwyr yn bwyta mewn safleoedd â sgôr uwch¹². Ar ddiwedd 2019, roedd y CSHB yn rhif 13 ar restr Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd o 20 o gyflawniadau iechyd y cyhoedd gorau'r 21ain ganrif¹³.

441,129 o sefydliadau bwyd â sgoriau hylendid bwyd wedi'u cyhoeddi, ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar 31 Mawrth 2020:




¹² <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/adroddiadprifgyngoryddgwyddonol7.pdf>


¹³ www.rsph.org.uk/about-us/news/top-20-public-health-achievements-of-the-21st-century.html

Mae'r graffiau isod yn dangos % dosbarthiad y sgoriau CSHB cyffredinol yn ôl gwlad ar 31 Mawrth 2020:


Lloegr




Gogledd Iwerddon



Cymru



Cyfanswm CSHB




- 0 - Angen gwella ar frys
- 2 - Angen gwella
- 4 - Da

- 1 - Angen gwella yn sylweddol
- 3 - Boddhaol ar y cyfan
- 5 - Da iawn

Mae arolwg tracio'r CSHB yn rhoi darlun cyffredinol o ymwybyddiaeth defnyddwyr, eu hagweddau tuag at y Cynllun a'u defnydd ohono yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cymerwyd y ffigurau canlynol o ymchwil 2019:

Defnyddwyr yn adnabod sticeri'r CSHB

84%
wedi gweld busnes bwyd yn arddangos ei sgôr yn y 12 mis diwethaf (o'r rheiny a oedd yn ymwybodol o'r cynllun sgorio)

 Gog. Iwerddon 95%

 Cymru 92%


 Lloegr 83%

Mae cyfran yr ymatebwyr sy'n cofio gweld sticer CSHB yn sylweddol uwch yng Nghymru a Gogledd Iwerddon

Safbwyntiau ar arddangos gorfodol

86%

o'r holl ymatebwyr o'r farn y dylai busnesau bwyd **orffod arddangos eu sticeri.**



*Cyflwynwyd arddangos gorfodol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2013 ac yng Ngogledd Iwerddon ym mis Hydref 2016

Nododd archwiliad o fusnesau yn hydref 2019 fod 52% o safleoedd yn Lloegr yn arddangos eu sgôr o dan y cynllun gwirfoddol (heb newid ers y llynedd) o'i gymharu ag 88% yng Nghymru a 76% yng Ngogledd Iwerddon, o dan y cynlluniau gorfodol. Mae hyn o'i gymharu â 21% yng Nghymru, 32% yn Lloegr a 38% yng Ngogledd Iwerddon yn 2011/12 ar ôl i'r cynllun gwirfoddol gael ei weithredu gyntaf.

Mae'r ASB yn parhau i ymrwymo i'w gwneud hi'n orffodol i arddangos sgoriau yn Lloegr hefyd. Dyma'r peth iawn i'w wneud i ddefnyddwyr, i fusnesau ac i ganlyniadau iechyd y cyhoedd. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi argymhell y dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl.

Perfformiad awdurdodau lleol

Elfen allweddol o'n rôl fel yr awdurdod cymwys canolog ar gyfer diogelwch bwyd yw darparu goruchwyliaeth a sicrwydd o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn darparu rheolaethau bwyd swyddogol. Yn ystod 2019 fe ddechreuon ni bontio i dull newydd o wneud hyn – y dull cerdyn sgorio cytbwys.

Cyn hyn, roedd ein dull o gael sicrwydd yn cael ei danategu gan system archwilio a oedd â rhaglenni ar wahân ym mhob un o'r tair gwlad. Yn Lloegr, roedd y broses hon yn cael ei defnyddio fwyfwy i fynd i'r afael â materion perfformiad penodol mewn awdurdodau lleol unigol yn hytrach nag asesu effeithiolrwydd y system trwy edrych ar gyflenwi mewn croestoriad o awdurdodau lleol.

Mae ein disgwyliadau gan awdurdodau lleol wrth gyflenwi rheolaethau bwyd swyddogol wedi'u nodi yn y Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid¹⁴. Rydym ni'n monitro cyflawniad yn erbyn y rhain trwy'r wybodaeth flynyddol am weithgarwch gorfodi awdurdodau lleol – System Rheoli Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) – a ffynonellau gwybodaeth eraill. Lle rydym ni'n nodi materion perfformiad, rydym ni wedi gweithio gydag awdurdodau lleol a'u helpu nhw i wneud y gwelliannau angenrheidiol

Dull wedi'i ddiweddarau a'i wella



Rydym ni wedi gwahanu ein swyddogaethau archwilio a rheoli perfformiad awdurdodau lleol yn Lloegr er mwyn gallu gweithredu yn fwy hyblyg a thargeddu'n well i fynd i'r afael â materion perfformiad



Cael rhagor o fesurau perfformiad hyblyg, effeithlon ac wedi'u gyrru gan ddata. Bydd hyn yn rhoi darlun mwy cyflawn a chywir o weithgareddau lleol gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr a chynnal hyder yn y gadwyn fwyd




Mewn egwyddor, bydd yr un dull yn cael ei fabwysiadu yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon ar ôl iddo gael ei ddatblygu ymhellach, ond bydd yn parhau i fod yn hyblyg er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau gwahanol ym mhob gwlad

¹⁴ <https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/codau-ymarfer-cyfraith-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid>

Rhaglen rheoli perfformiad

Roedd y rhaglen gychwynnol, a oedd yn berthnasol i Loegr yn unig, yn cynnwys dwy elfen allweddol:



1




Ar ôl gwahanu swyddogaethau archwilio a rheoli perfformiad, gwnaethom nodi pa awdurdodau lleol i ymgysylltu â nhw trwy adolygu archwiliadau agored. Fe wnaethom ni gynnwys yr awdurdodau lleol hynny oedd â gweithred heb ei gyflawni mewn perthynas â pherfformiad.

2




Nodi'r awdurdodau lleol â phroblemau o ran perfformiad hylendid bwyd trwy asesu data LAEMS, yn seiliedig ar gymhwyso dangosyddion perfformiad ar gyfer cyflwyno ymyriadau dyladwy ar draws pob categori risg busnes bwyd. Ar gyfer pob awdurdod lleol a nodwyd, codwyd materion perfformiad eraill a nodwyd gyda nhw.

Data LAEMS 2017/18



Data LAEMS 2018/19




Yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon, defnyddiwyd data perfformiad o wybodaeth LAEMS 2019/20 i lywio rhaglenni archwilio'r awdurdodau lleol. Defnyddiwyd y data hefyd fel sail ar gyfer trafodaethau gydag awdurdodau lleol perthnasol i herio unrhyw faterion perfformiad, gan gynnwys ymyriadau hwyr, ac uwchgyfeirio materion lle bo angen.

Cynllun y dyfodol yw cael dull cyson o reoli perfformiad ar draws y tair gwlad ac ar hyn o bryd rydym ni'n gweithio i ddatblygu'r system hon.

Lle na chymerir camau priodol neu lle na chynhelir gwelliannau, rydym ni'n dilyn gweithdrefn uwchgyfeirio, y cytunwyd arni ym mis Mawrth 2019, fel bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu, a bod hyder defnyddwyr yn cael ei gynnal. Defnyddir dull graddedig gydag ymgysylltu ar wahanol haenau rheoli yn yr ASB a'r awdurdod lleol.

Awdurdodau lleol sy'n destun uwchgyfeirio:




Mae ein hymgysylltiad wedi bod yn adeiladol, cytunwyd ar gynlluniau gweithredu â therfynau amser, ac rydym ni'n monitro cynnydd tuag at sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

Gan edrych ymlaen at 2020, byddwn ni'n datblygu ein dull ymhellach o ran disgwyliadau cyfredol awdurdodau lleol ac yn symud o raglen rheoli perfformiad flynyddol yn seiliedig ar wybodaeth LAEMS i raglen rheoli perfformiad barhaus yn seiliedig ar set ehangach o ddata, gan integreiddio data'r CSHB. Byddwn ni'n ystyried ac yn nodi pa ddangosyddion LAEMS a CSHB fydd yn ein galluogi i fesur a gyrru gwelliannau ym mherfformiad awdurdodau lleol yn fwyaf effeithiol.


Cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd cig â rheoliadau

Cyfrifoldeb gweithredwyr busnesau bwyd cig yw cydymffurfio â rheoliadau diogelwch bwyd, hylendid a lles anifeiliaid. Fel rhan o'r system o reolaethau swyddogol, mae'r ASB yn cynnal archwiliadau o fusnesau bwyd i wirio cydymffurfiaeth gweithredwr busnes bwyd a gweld lle mae angen gwella. Rydym ni wedi archwilio **913** o fusnesau bwyd fel ag yr oedd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 ac mae canlyniadau archwilio yn cael eu categorio yn ôl lefelau cydymffurfio fel – 'Da', 'Boddhaol ar y cyfan', 'Angen gwella' ac 'Angen gwella ar frys'.

Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig yn Lloegr wedi'u sgorio fel 'Da' neu 'Foddhaol ar y cyfan'




Nifer yr gweithredwyr busnesau bwyd cig yn Lloegr wedi'u sgorio fel 'Angen gwella' neu 'Angen gwella ar frys'




*Nid oedd unrhyw weithredwyr busnesau bwyd yn Lloegr wedi'u sgorio fel 'Angen gwella ar frys' yn ystod chwarter cyntaf 2018/19.

Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig yng Nghymru wedi'u sgorio fel 'Da' or 'Foddhaol ar y cyfan'




Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig yng Nghymru wedi'u sgorio fel 'Angen gwella' neu 'Angen gwella ar frys'



*Nid oedd unrhyw weithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru wedi'u sgorio fel 'Angen gwella' nac 'Angen gwella ar frys' rhwng Chwarter 1 a Chwarter 3 yn 2017/18, Chwarter 1 a Chwarter 2 yn 2018/19 a Chwarter 3 yn 2019/20.

Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig yng Ngogledd Iwerddon wedi'u sgorio fel 'Da' neu 'Foddhaol ar y cyfan'



Nifer y gweithredwyr busnesau bwyd cig yng Ngogledd Iwerddon wedi'u sgorio fel 'Angen gwella' neu 'Angen gwella ar frys'



Fel rhan o ymrwymiad yr ASB i annog busnesau bwyd i gymryd eu cyfrifoldebau dros gynhyrchu bwyd mwy diogel fwy o ddifrif, rydym ni wedi gosod uchelgais i leihau cyfanswm nifer y sefydliadau a gaiff eu harchwilio sy'n cael sgôr 'angen gwella' neu 'angen gwella ar frys' o 25%. Y nod yw lleihau'r risg o ymddygiadau croes i'r graen yn y tîm archwilio a'r gweithredwyr busnesau bwyd. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym ni wedi gweithio i gryfhau ein prosesau mewn safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio trwy gymhwyso protocolau mwy cadarn, cyson a thryloyw gydag ymyriadau cynharach. Cyflwynwyd y rhain yn gymesur cyn ac yn ystod yr adolygiad o gymeradwyaethau, gyda gweithredwyr busnesau bwyd yn gwybod yn union beth yw'r canlyniadau os ydyn nhw'n parhau i fethu â chydymffurfio.

Lles anifeiliaid

Caiff y rhaglen ‘**Rhwystro, Atal, Canfod, Gorfodi**’ ei chynnal drwy’r Cynllun Gweithredu ar Les Anifeiliaid sy’n cael ei chynnal gan yr ASB. Mae’n ffordd o gofnodi, olrhain a gwerthuso effeithiolrwydd gwelliannau lles anifeiliaid. Mae gennym ni agwedd dim goddefgarwch tuag at unrhyw un nad ydynt yn cydymffurfio â rheolau lles anifeiliaid. Mae pob achos o ddiffyg cydymffurfio yn arwain at gamau priodol, fel gweithredu anffurfiol, sy’n effeithiol o ran osgoi achosion o ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol lle mae’r achosion o dorri rheolau yn rhai llai, a gweithredu ffurfiol lle mae achosion o ddiffyg cydymffurfio yn fwy difrifol, er enghraifft achosi poen neu ddioddefaint neu lle nad yw gorfodi anffurfiol wedi arwain at gydymffurfio dilynol.

Mae’r cynllun gweithredu yn cael ei fonitro gan grŵp llywio sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r ASB, Llywodraeth Cymru a Defra, sy’n adolygu unrhyw gamau gweithredu heb eu cyflawni ac yn cymeradwyo camau gweithredu newydd. Gyda chytundeb y grŵp llywio, gall perchnogaeth y cam gweithredu gael ei ddyrannu i randdeiliaid heblaw’r ASB, er enghraifft Defra.

Yn 2019/20, gwnaethom barhau i gynnal gweithgareddau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Gweithredu ar Les Anifeiliaid. Cafodd y gweithgareddau hyn eu nodi ym mhapurau’r Bwrdd yn 2018 ac yn 2019. I grynhoi, rydym ni wedi cyflawni’r canlynol:

System gryfach i wirio cydymffurfiaeth drwy:

- Weithio gyda Defra a’r diwydiant i weithredu gofynion Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1099/2009.
- Gweithio gyda Defra ac adrannau eraill y Llywodraeth i werthuso effeithiolrwydd gweithredu rheoliadau CCTV gorfodol sydd ond yn berthnasol yn Lloegr. Gosododd pob un o’r 234 o weithredwyr busnesau bwyd yn Lloegr system teledu cylch cyfyng sy’n cydymffurfio.
- Cwblhau ein trydydd archwiliad ar thema lles anifeiliaid.

Gwell atebolrwydd a chydweithio trwy:

- Ein rhaglen o ymweliadau gan Dîm Sicrhau Lles arbennig yr ASB.
- Trafodaethau llwyddiannus gyda Defra a Llywodraeth Cymru i sicrhau cynnydd mewn cyllid ar gyfer darparu rheolaethau lles anifeiliaid.
- Ein cyfraniad at drafodaethau’r Gyfnewidfa Polisi Cyhoeddus ar stynio gwrthdroadwy (*reversible stun*) a pha mor dderbyniol yw ar gyfer lladd crefyddol heb stynio.
- Ehangu ein cysylltiadau gweithio ar y cyd â chynrychiolwyr y diwydiant yn y sectorau cig coch a gwyn sy’n ymroi i wella lles anifeiliaid yn barhaus.

Gwell addysg ac ymwybyddiaeth trwy:

- Gydweithio â Defra i gynhyrchu canllawiau a dogfen Holi ac Ateb sy’n cyd-fynd â deddfwriaeth Rheoliad (CE) Rhif 1099/2009 y Cyngor.
- Cyhoeddi canllawiau arfer gorau ar thema yn ymwneud â:
 - gweithdrefnau gweithredu safonol
 - darparu dŵr mewn llociau (*lairages*);
 - atal (*restrain*) gwartheg i’w lladd

Gwella ansawdd ein hadrodd a’n dadansoddi drwy:

- Gynhyrchu a chyhoeddi ystadegau ar achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheolau lles anifeiliaid.
- Parhau i fireinio’r gronfa ddata o achosion o ddiffyg cydymffurfio â lles anifeiliaid.
- Olrhain cytundebau lefel gwasanaeth gwell a chynadleddau achos gyda Defra a Llywodraeth Cymru.
- Adroddiadau gwell ar ymweliadau Tîm Sicrhau Lles yr ASB.

Digwyddiadau bwyd

Un o hawliau sylfaenol defnyddwyr yw'r gallu i wneud penderfyniadau gwybodus am y bwyd y maent yn dewis ei brynu a'i fwyta. Dim ond os yw bwyd yn cael ei nodi'n gywir a'i labelu'n briodol y mae'n bosibl iddynt wneud hynny. Mae timau digwyddiadau, gwytnwch a diogelu defnyddwyr ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn rheoli ac yn cydlynu ymateb yr ASB i ddigwyddiadau bwyd ac achosion a gludir gan fwyd gan sicrhau bod cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch yn cael eu tynnu o'r farchnad. Mae Cynllun Rheoli Digwyddiadau'r ASB yn amlinellu'r cynlluniau a'r gweithdrefnau ar gyfer bodloni ein cyfrifoldebau wrth ymateb i ddigwyddiadau anarferol sy'n gysylltiedig â bwyd. Un system allweddol i alluogi ymateb gan yr ASB pan ganfyddir risgiau i iechyd y cyhoedd yn y gadwyn fwyd yw RASFF – y System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Mae'n darparu gwasanaeth i sicrhau bod hysbysiadau brys yn cael eu hanfon, yn cyrraedd a'n bod ni'n ymateb iddynt yn effeithlon.

Amcanion 2019/20



Parhau i wneud ein gwaith 'bob dydd' yn arbennig o dda



Adeiladu ar Allu i Reoli Digwyddiadau




Y DU yn ymadael â'r UE

Cynnydd yn erbyn amcanion

2,479 o ddigwyddiadau halogi bwyd, bwyd anifeiliaid a'r amgylchedd y cawsom wybod amdanynt ac yr ymchwiliwyd iddynt yn y DU yn ystod blwyddyn adrodd 2019/20, cynnydd o **6.7%** o'i gymharu â **2018/19**.


178 o rybuddion wedi'u cyhoeddi yn 2019/20, sy'n cynrychioli gostyngiad o 6.3% o'i gymharu â 2018/19. Nid yw'r gostyngiad yn nifer y rhybuddion a gyhoeddwyd yn 2019/20 o reidrwydd yn arwydd o newid ym mhroffil diogelwch bwyd y DU.

Hysbysiadau a ddaeth i law



Rhybuddion a gyhoeddwyd

Cyhoeddir Hysbysiadau Galw Cynnyrch yn Ôl (PRINs) pan fydd cynnyrch yn cael ei alw yn ôl oddi wrth ddefnyddwyr i ddatrys mater.



Y DU yn ymadael â'r UE

Cwblhawyd paratoadau'r Uned Ymateb i Ddigwyddiadau ar gyfer y DU yn ymadael â'r UE fel y cynlluniwyd ddiwedd mis Mawrth 2019. Roedd y rhain yn cynnwys:

	<p>Datblygu a gweithredu rhaglen gryfach ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan feithrin perthnasoedd ymhellach ag awdurdodau diogelwch bwyd cymwys mewn gwledydd eraill ochr yn ochr â grŵp cyswllt diwydiant bwyd y DU a ddefnyddir yn ystod digwyddiadau mawr.</p>
<p>Gwreiddio eilydd yn y Rhwydwaith Awdurdodau Diogelwch Bwyd Rhyngwladol (INFOSAN), a reolir ar y cyd gan y Sefydliad Bwyd ac Amaeth a Sefydliad Iechyd y Byd.</p>	<div style="text-align: center;"> <p>180</p> </div> <p>Nifer y gwledydd y gall y DU gyrraedd oherwydd rhwydwaith cyfathrebu helaeth.</p>
<p>Cynnal a gwella ein safonau uchel o ran diogelwch bwyd trwy gryfhau ein prosesau rheoli digwyddiadau. Roedd hyn yn cynnwys:</p> <div style="display: flex; justify-content: space-between;"> <div data-bbox="183 1769 335 1870"> <p>Sefydlu systemau ychwanegol gyda'r gallu i fod yn rhagweithiol o ran nodi arwyddion sy'n dangos risgiau diogelwch bwyd.</p> </div> <div data-bbox="853 1769 973 1881"> <p>Recriwtio a hyfforddi staff ychwanegol i gefnogi'r swyddogaethau newydd sy'n gwbl weithredol.</p> </div> </div>	
	<p>Dechrau gweithredu ein Cynllun Rheoli Digwyddiadau i ddarparu gallu ymateb brys er mwyn cefnogi a datrys unrhyw ddigwyddiadau yn sgil y DU yn ymadael â'r UE.</p>

YMGYRCH

Diwrnod Diogelwch Bwyd y Byd (galw cynhyrchion yn ôl)

Nod: Codi ymwybyddiaeth defnyddwyr o'n system rhybuddion a chael mwy o bobl i lawrlwytho ein canllawiau ar alw a thynnu cynhyrchion yn ôl.

Pryd: Mehefin 2019

Gwariant: £11,000

Cefnogodd ugain o bartneriaid yr ymgyrch gan gynnwys amrywiaeth o gymdeithasau masnach, brandiau cynnyrch, bwytai a chaffis, archfarchnadoedd ac arlwywyr, gan **greu 1,126,527 o gyfleoedd**, fel Aldi yn trydar i 370 mil o ddilynwyr ac Ymgyrch Anaffylactis yn rhannu i'w 8,724 o ddilynwyr.

Gwnaethom hyrwyddo canllawiau newydd a chanllaw cyfeirio cyflym i helpu busnesau bwyd i gynnal prosesau galw a thynnu bwyd yn ôl yn haws ac yn fwy effeithiol.

Bu raid i ni leihau ein gweithgarwch ar alw cynhyrchion yn ôl ar gyfer Diwrnod Diogelwch Bwyd y Byd oherwydd digwyddiad bwyd. Er hyn, **fe wnaethom ni ddyblu nifer y tanysgrifwyr i'n gwasanaeth rhybuddion** o'i gymharu ag wythnos arferol (599). Gwelsom hefyd y nifer uchaf o bobl yn lawrlwytho ein canllawiau ar dynnu a galw cynhyrchion yn ôl, gan ddod â'r cyfanswm i 1,776 erbyn ddiwedd yr ymgyrch.



Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Ffurfiwyd yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned) yn 2014, yn wreiddiol i gyflawni swyddogaeth gwybodaeth (*intelligence*) droseddol. Yn ystod y cyfnod hwn, awdurdodau lleol neu awdurdodau gorfodi cyfraith ehangach oedd yn gyfrifol am weithgarwch ymchwilio. Ym mis Mehefin 2018, cymeradwyodd Trysorlys Ei Mawrhydi gyllid ychwanegol ar gyfer Bwrdd yr ASB i ddatblygu'r Uned i gynnwys swyddogaethau ymchwilio ac atal. Y nod yw darparu ymateb o ddechrau i ddiwedd y broses i frwydro yn erbyn gweithgarwch troseddol yn y gadwyn cyflenwi bwyd erbyn Ebrill 2020. Dyma'r prif feysydd y gwnaeth yr Uned gynnydd ynddynt yn ystod 2019/20.

DNP (2,4-Dinitrophenol)

Mae DNP yn gemegyn gwenwynig y gellir ei farchnata'n anghyfreithlon fel sylwedd sy'n llosgi braster, ac sy'n addas i'w gymryd gan bobl. Bu pum marwolaeth yn y DU yn gysylltiedig â gwenwyndra DNP ers Ebrill 2019. Mae ymdrechion yr Uned i atal hyn wedi bod yn amrywiol ac yn sylweddol.



Daeth menter aml-genedlaethol o dan Ymgyrch flynyddol OPSON i ben. Roedd hyn yn cynnwys ymyriadau mewn safleoedd a oedd yn gysylltiedig â gwerthu DNP a negeseuon ehangach ynghylch bygythiad DNP trwy weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasu yn y DU



12

o broffiliau cyfryngau cymdeithasu wedi'u dileu ers 2015



400

o restrïadau marchnad penodol wedi'u dileu ers 2015



89

o wefannau wedi dod i lawr ers 2015



35

achos o darfu ar fasnach ar-lein trwy gwynion, tynnu gwefannau i lawr a chau cyfrifon cyfryngau cymdeithasu





Dramor, mae ein hymchwiliadau wedi arwain at ganlyniadau barnwrol nodedig sy'n gysylltiedig â gwerthu DNP yn y DU neu iddi



200+

o bobl wedi'u rhybuddio am risgiau DNP gan yr Uned trwy lythyr neu gan heddluoedd lleol ar ôl honiadau eu bod wedi prynu'r cyffur

Perthnasau

<p>Mewnol</p> 	<p>Mae ein hadolygiad o Gynllun Rheoli Digwyddiadau'r ASB yn cynnwys 'ymgysylltu'. Mae hyn er mwyn sicrhau bod prosesau ac ymatebion i ddigwyddiadau yn cael eu cefnogi'n briodol ac yn adlewyrchu gallu a chwmpas ehangach yr Uned.</p> <p>Fe wnaethom gytuno ar brotocol mewnol ar gydweithio ar draws yr Uned a Gweithrediadau Maes yr ASB.</p>
<p>Allanol</p> 	<p>Cytunwyd ar brotocol ar gyfer sicrhau cefnogaeth gan bartneriaid plismona. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.</p> <p>Creu a chytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar weithio ar y cyd â Chymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach.</p> <p>Gwell mynediad at ddata dilysrwydd y diwydiant trwy Gytundeb Rhannu Gwybodaeth yr Uned â Rhwydwaith Gwybodaeth y Diwydiant Bwyd.</p>

Ymchwiliadau'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Logiau gwybodaeth

1,462Amhariadau ar droseddoldeb
bwyd a gofnodwyd**64**Ymchwiliadau newydd
neu bresennol**11**

Gwybodaeth, systemau a galluoedd

Mae ehangiad a datblygiad aeddfedrwydd yr Uned wedi dod i'r amlwg mewn sawl maes lle gallwn ni dynnu sylw at gyflawni cerrig milltir strwythurol a gweithdrefnol sylweddol.

**73** aelod o staff

Cyferwerth ag amser llawn (o'r
83 staff i gyd)



Hyfforddiant sefydlu a
ddarperir ar wahân i
ddatblygiad proffesiynol
perthnasol



Gweithdrefnau gweithredu
safonol cytunedig i
reoleiddio ein dull



Mynediad diogel i sawl system genedlaethol sy'n hanfodol ar gyfer dull gorfodi cyfraith a arweinir gan wybodaeth, gan gynnwys Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu, a phrif gronfa ddata gwybodaeth awdurdodau lleol.



Ymgysylltu â QC annibynnol i ddiffinio mandad gweithgareddau'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd fel sefyllfa dros dro, hyd nes y cyflwynir deddfwriaeth i roi pwerau mynediad o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) a newidiadau i Godau Ymarfer Cyfraith Bwyd.



Gweithredu system gwybodaeth a rheoli achosion o'r dechrau i'r diwedd



Ymchwilio i ddrafftio a darparu Asesiad Strategol Troseddau Bwyd diwygiedig



Datblygu trefniadau ar gyfer awdurdodi a chynnal gweithgarwch cudd, gan gynnwys cysylltu â Swyddfa'r Comisiynwyr Pwerau Ymchwilio




Adolygu strwythurau a phrosesau busnesau i sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl



Gweithredu dulliau tasgio a chydgysylltu proffesiynol wedi'u mireinio








Gwybodaeth a ddaeth i law ac a gafodd ei gwerthuso a'i dosbarthu



33%

Cynnydd yn lefel yr wybodaeth flynyddol a gofnodwyd gan yr Uned er 2016

Amhariadau

	Sawl ymyriad ar-lein i rwystro gwerthiant sylweddau anniogel		Nodi cynhyrchion iechyd anniogel ar werth, gan ei gwneud yn bosibl eu tynnu oddi ar y farchnad
	Cyflawni gweithgarwch Ymgyrch OPSON fel rhan o ffocws y Comisiwn Ewropeaidd ar ardystio organig		Cydlynu diwrnod o weithredu amlasiantaethol gan arwain at ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio wrth gynaeafu pysgod cregyn
	Cydlynu ymyriadau amlasiantaethol mewn busnesau trin cig ar draws sawl awdurdod lleol		Cydlynu i gefnogi ymchwiliadau parhaus ar allforion ceffylau
	Cydlynu gwybodaeth sy'n arwain at weithredu gwarant a chael gwared ar gynhyrchion wedi'u mewnforio nad ydynt yn cydymffurfio ar draws sawl awdurdod lleol		

Cadw gwyliadwriaeth

Amcan cyffredinol:

Datblygu dull systematig ar draws yr ASB i nodi risgiau bwyd a bwyd anifeiliaid yn effeithiol. Mae angen i ni nodi effeithiau uniongyrchol fel risg ficrobiolegol, troseddau, newidiadau mewn agweddau defnyddwyr at fwyd, newidiadau mewn modelau busnes, a datblygiadau technegol mewn cynhyrchu bwyd a'n hymgysylltiad â bwyd. Rydym ni'n cadw gwyliadwriaeth er mwyn diogelu defnyddwyr nawr ac yn y dyfodol, gan ragweld a gweithredu mewn modd amserol. Mae hon yn egwyddor strategol sylfaenol i'r ASB.

Amcanion ar gyfer 2019/20:

Defnyddio dulliau modern a alluogir gan dechnoleg i ddarparu gwyliadwriaeth. Cymryd awgrymiadau gan waith Cyngor Gwyddoniaeth yr ASB, gwaith y gorffennol a gwaith cyffredol, ar sganio'r gorwel, defnyddio data a thechnoleg ddigidol. Mae'r ffocws ar ddefnyddio data, wedi'i alluogi gan dechnoleg flaenllaw, gyda mewnbwn pobl, er mwyn datblygu ymwybyddiaeth sefyllfaol yn rhagweithiol cyn i faterion godi i ddiogelu defnyddwyr a sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn ddilys.

Crynodeb o'r prif gyflawniadau:



Sganio'r gorwel

Fe wnaethom ni gyhoeddi adroddiad Sganio'r Gorwel gan arwain at adnoddau pwrpasol. Byddwn ni'n datblygu system fel rhan integredig o'n system wylidwriaeth ehangach ac yn parhau i weithio o fewn y rhaglen alergenau sy'n parhau i ddatblygu.



Datblygu system integredig gynhwysfawr

Dechreuon ni ddatblygu dyluniad y system wylidwriaeth gynhwysfawr. O ystyried y gweithgarwch gwyliadwriaeth eang sy'n digwydd ar draws yr ASB, byddai'n ddefnyddiol i ni a'r defnyddiwr adeiladu ar hwn, gan fanteisio i'r eithaf ar ei fewnwelediadau a'u rhannu.



Hwb data

Fe wnaethom ni gydgasglu a gwella data a gasglwyd gan awdurdodau lleol trwy'r Cypolwg Unedig – offeryn a ddatblygwyd i gasglu data busnesau bwyd gan awdurdodau lleol.



Samplu

Rydym ni wedi rhannu samplu yn 3 math craidd er mwyn gallu canolbwyntio ymdrechion ar gyflenwi mewn gwahanol ffyrdd, gan gydnabod bod dibenion a nodau gwahanol iawn ar gyfer y gwahanol fathau hyn o samplu:

- ateb damcaniaethau
- casglu gwybodaeth
- rheolaethau swyddogol



Dadansoddi

Rydym ni wedi amcangyfrif nifer y llwythi (*consignments*) bwyd wedi'u mewnforio risg uchel yn y DU o wledydd y tu allan i'r UE nad ydynt yn cael eu gwirio ym mhwyntiau mynediad y DU wrth iddynt ddod i mewn trwy wlad yn yr UE.

Fe wnaethom barhau i ymchwilio i ddeall tueddiadau ac amgylchiadau sy'n ymwneud ag adweithiau gorsensitifrwydd i fwyd a digwyddiadau iechyd dilynol yn well.

Gwnaethom arwain ar y gwaith o ddarparu ymchwil profi cysyniad i ragfynegi cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd ar gyfer sefydliadau newydd yn seiliedig ar ffactorau gweithredu cychwynnol. Rydym ni'n mynd i'r afael â chyfyngiadau blaenorol trwy:



Ddefnyddio technegau dysgu dwys Deallusrwydd Artiffisial (AI) mwy datblygedig.



Gwerthuso macro-raddfa'r DU.



Ychwanegu ffynonellau data agored allanol.



Datblygu fframwaith i ddeall effaith troseddau bwyd ar economi'r DU.

Gwyddor gymdeithasol



Mae gwyddonwyr cymdeithasol yn monitro, mesur, disgrifio, egluro, rhagfynegi a gwerthuso ffenomenau cymdeithasol ac economaidd. Eleni fe wnaethom ni ganolbwyntio ar:

- Ragfynegi tueddiadau a newidiadau, gan gynnwys deall beth sy'n llywio dewisiadau bwyd Cenhedlaeth Z (fel arfer pobl 16-25 oed).
- Newidiadau yng nghanfyddiadau risg defnyddwyr a derbynioddeb technolegau bwyd newydd.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasu agored sy'n ein galluogi i olrhain safbwyntiau defnyddwyr mewn amser sy'n agos i fod yn amser real.

Mewnforian



Gwnaethom gryfhau perthnasoedd gwaith ymhellach gydag awdurdodau iechyd porthladdoedd.



Cyflwynwyd sawl teclyn arloesol a gynyddodd y gallu i wneud penderfyniadau a gaiff eu llywio gan ddata gan gynorthwyo yn yr arolygiadau wedi'u targedu o fwyd wedi'i fewnforio.



Buom yn cydweithio â sawl adran arall o'r Llywodraeth ar y ffin i ymchwilio i'r risg bod bwyd nad yw'n cydymffurfio yn dod i'r DU trwy'r rhwydwaith parseli.










Cadw Gwyliadwriaeth Strategol



Datblygu gallu gwyliadwriaeth strategol hyblyg, ymatebol wedi'i alluogi gan ddata. Trwy hyn rydym ni'n datblygu darlun o'r system fwyd, ei risgiau a'i gwendidau, fel y gallwn ni reoli risgiau bwyd i ddefnyddwyr.

Rydym ni wedi cyflawni ein prif amcan ar gyfer eleni ac rydym yn darparu gallu ymatebol i helpu i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE a newidiadau mewn patrymau masnach yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys systemau, gwell gwybodaeth am ddata, modelau, algorithmau a sgiliau.

Achosion o ddefnyddio gwyliadwriaeth strategol yn 2019/20

	Dangosfwrdd tebygolrwydd risg		Rhagfynegiad risg afflatocsin
	Dangosfwrdd sefydliadau cig		Busnesau heb eu cofrestru
	Blaenoriaethu arwyddion		Rhagfynegi risg plaladdwyr
	Profiad y defnyddiwr bwyd		Llwybrau masnach a chyfeintiau mewn porthladdoedd
	System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF) y tu allan i'r DU		Arddangos sgoriau'r CSHB ar-lein
	Sectorau bwyd y DU sydd fwyaf agored i newid yng ngwerth y bunt		

Y camau nesaf


- Cydnabod arfer da a dadansoddi bylchau i sicrhau bod manau cyfyng (*pinch points*) yn cael eu nodi. Defnyddio dull integredig modern i nodi meysydd arfer da a chyfleoedd dysgu.
- Bydd cynigion yn y dyfodol yn cynnwys canlyniadau disgwylidig i sicrhau bod buddion a nodwyd yn cael eu mesur.
- Dechrau dylunio model sy'n nodi'r amryw elfennau swyddogaethol gofynnol a nodi achos y gellir ei ddefnyddio i arfer sut y gallai model newydd weithio ond gan adeiladu ar yr hyn sydd gennym ni eisoes.
- Defnyddio gwybodaeth wedi'i chasglu gan adroddiad Gweithgor 4 y Cyngor Gwyddoniaeth ar ecsbloetio data.

Maeth (Gogledd Iwerddon)


Cyfrifoldeb yr ASB yng Ngogledd Iwerddon yw cyflwyno polisi maeth ac iechyd deietegol. Y nod yw gwella canlyniadau maeth ac iechyd i ddefnyddwyr trwy sicrhau bod cynhyrchion bwyd iachach ar gael a chynyddu dealltwriaeth defnyddwyr o faeth, er mwyn caniatáu i'r dewis iach fod yn ddewis hawdd. Prif rôl yr ASB yw datblygu ac arwain ar bolisiau sy'n canolbwyntio ar bob sector o'r diwydiant bwyd a'r sefydliadau sy'n dylanwadu arnynt ac yn eu cefnogi.

Ffigur 1. Data Gwylidwriaeth Maeth Gogledd Iwerddon ar Gymeriant Deietegol

Yng Ngogledd Iwerddon, rydym ni'n bwyta gormod o:



A dim digon o:



Mae pa mor gyffredin yw gordewdra a phobl dros eu pwysau yng Ngogledd Iwerddon dros y 10 mlynedd diwethaf yn fater o bryder. Ar hyn o bryd yng Ngogledd Iwerddon, mae dros hanner yr oedolion (62%) a chwarter y plant 2-15 oed (27%) dros eu pwysau neu'n ordew (Adran Iechyd, 2020) (Ffigur 2).

Ffigur 2. Cymeriant Deietegol Gogledd Iwerddon

Mae 6 o bob 10 oedolyn yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hystyried i fod dros eu pwysau neu'n ordew



Mae 1 o bob 4 plentyn 2 i 15 oed yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hystyried i fod dros eu pwysau neu'n ordew



Mae'r ASB yng Ngogledd Iwerddon wedi gweithio gyda gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr bwyd lleol, yn ogystal â'r sector y tu allan i'r cartref (bwyta ac eraill) ar raglen 4-5 mlynedd o'r enw 'Eating Well Choosing Better'.

Rydym ni'n cefnogi busnesau bach a chanolig yng Ngogledd Iwerddon i ailfformiwleiddio a lleihau maint dognau i wneud dewisiadau iach yn haws. Mae ein cynllun gweithredu a'n cynllun cyflawni yn parhau i gyd-fynd â chynllun gweithredu Iechyd Cyhoeddus Lloegr, mewn perthynas â lleihau faint o siwgr a cholorïau y mae plant yn eu bwyta.

Fel rhan o'r rhaglen uchod, fe wnaeth yr ASB gyhoeddi'r adroddiad 'Cynnwys Maethol Sgons', mewn partneriaeth â'r 11 cyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon, a oedd yn arolygu ac yn samplu sgons ar werth mewn siopau coffi ar y stryd fawr ar draws Gogledd Iwerddon. Roedd y canlyniadau'n awgrymu bod y mwyafrif o sgons a samplwyd yn rhai cartref, gan roi cyfle i ailfformiwleiddio. Yna gwnaethom gomisiynu'r Coleg Amaethyddiaeth, Bwyd a Menter Wledig (CAFRE) i gynnal arbrofion ailfformiwleiddio ac i ddatblygu canllawiau technegol ar gyfer busnesau. Lanswyd y canllawiau hyn mewn digwyddiad ailfformiwleiddio sgons ym mis

Ionawr 2020 gan ganiatáu i fusnesau brofi ystod o sgons wedi'u hailfformiwleiddio. Dangosodd gwerthusiad o'r digwyddiad bod:



73%

Yn ystyried ailfformiwleiddio sgons i'w gwneud yn iachach



80%


Yn ystyried lleihau maint dognau sgons

Rydym ni wedi parhau â'n partneriaeth â'r cynghorau dosbarth trwy arolygu a samplu dognau o gacennau caws ar werth mewn bwytaï sydd wedi'u dadansoddi i bennu cynnwys maethol a maint dognau.

O fewn y sector y tu allan i'r cartref, mae'r cynllun Calorie Wise yn parhau i gael ei ddarparu mewn partneriaeth â'r 11 cyngor dosbarth. Mae'r cynllun hwn yn annog busnesau bwyd i labelu caloriâu bwyd a diod yn wirfoddol ar eu bwydlenni, gyda chymorth gan adnodd ar-lein am ddim yr ASB sy'n cyfrifo caloriâu, o'r enw MenuCal. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r ASB a chynghorau dosbarth wedi bod mewn cysylltiad ag ystod eang o fusnesau lleol. Mae mwy na 30 o fusnesau wedi cael cefnogaeth gennym ni i weithredu pedair egwyddor y Cynllun Calorie Wise ac ar ddefnyddio MenuCal.


Cyflawniadau Gwobr Aur Calorie Wise

51 i gyd



Mae'r defnydd o MenuCal yn parhau i dyfu gyda chynnydd o 24% yn nifer y defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon ers Ebrill 2019 (hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020). Mae cynnydd o 38% yn nifer y bobl sy'n dychwelyd i'r wefan (nifer y mewngofnodion) yn dangos bod MenuCal yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth i ddefnyddwyr fewngofnodi i ychwanegu ryseitiau newydd neu wneud newidiadau i'r rhai sy'n bodoli eisoes (Ffigur 3).

Ffigur 3. Nifer y bobl sy'n dychwelyd i MenuCal a'r ryseitiau a fewnbynnwyd



YMGYRCH

Gwirio'r label

Nod: Newid ymddygiad trwy roi galwad clir i weithredu sy'n annog defnyddwyr Gogledd Iwerddon i 'Wirio'r label' wrth siopa bwyd i'w helpu i wneud dewisiadau iachach a gwybodus.

Pryd: Chwefror/Mawrth 2020

Gwariant: £110,000

Fe ddefnyddion ni ddull 'Oeddech chi'n gwybod' i dynnu sylw at y calorïau mewn dogn arferol o fwydydd cyffredin ac annog defnyddwyr i wirio'r label.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth a'r Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd (PHA) a chyfuno neges allweddol o raglen 'Choose to Live Better' y PHA, **'Gallai dim ond 100 o galorïau ychwanegol y dydd olygu ennill 10 pwys y flwyddyn'**. Ein cynulleidfa darged oedd menywod mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, gan fod canlyniadau arolwg Bwyd a Chi'r ASB wedi nodi bod menywod yn fwy tebygol o fod yn gyfrifol am y siopa bwyd i gyd neu'r rhan fwyaf ohono.

Roedd y cyfryngau a ddefnyddiwyd yn cynnwys ystod o fideos organig a hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasu, ar ITV Hub a Sky AdSmart, hysbysebu awyr agored, hysbysebu radio gyda Cool FM, yn ogystal â chynnwys arddangos digidol gan ddefnyddio Belfast Live. Gan ddefnyddio'r sianeli hyn **fe wnaethom ni gynhyrchu dros 4.5 miliwn o gyfleoedd** (i weld) a chafodd tudalen we 'Check the Label' ar food.gov.uk dros 4,000 o ymwelwyr yn ystod yr ymgyrch.

Cynigiodd nifer o randdeiliad a phartneriaid gefnogaeth gan gynnwys sefydliadau maeth, grwpiau cymorth i ddefnyddwyr, asiantaethau'r sector cyhoeddus, a chanolfannau academaidd a dysgu. **Fe grëodd hyn 415,449 o gyfleoedd i weld cynnwys 'Check the Label'** ar eu sianeli a'u rhwydweithiau.

Did you know?

Just **100 calories** extra a day could mean **10lbs** of weight gain a year.

Food Standards Agency
food.gov.uk

HSC Public Health Agency

Energy
594kJ
142kcal
7%

8g (16%)
15g (30%)
1.5g (3%)


2,000 CALORIES (Males)
2,500 CALORIES (Males)

Check the label.
Learn more at food.gov.uk/CheckTheLabel

* Based on an average of the front of pack calorie information found on four different chunky chocolate brands readily available in NI supermarkets.

Gwyddoniaeth a thystiolaeth


Mae gwyddoniaeth yn hanfodol i'r ASB, gan ddarparu sylfaen dystiolaeth i lywio'r broses o gyflawni cyfrifoldebau statudol a llunio blaenoriaethau strategol. Mae gwyddoniaeth a thystiolaeth yn bwysig mewn perthynas â phryderon ynghylch caniatáu cynhyrchion neu brosesau newydd ar y farchnad fel rhan o gytundebau masnach rydd newydd. Rydym ni wedi datblygu cynllun strategol pedair rhan ar gyfer y tair blynedd nesaf a chynnig blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol i barhau i wella ein dull o gaffael a defnyddio gwyddoniaeth.



Capasiti mewnol ac allanol:

33%


Twf gallu 2019/20 SERD wrth baratoi i'r DU ymadael â'r UE ac i gryfhau ein proses dadansoddi risg. Canolbwyntiodd hyn ar wella gallu critigol ar gyfer asesu risg microbiolegol a thocsicolegol. Rydym ni wedi cryfhau ein gallu ar draws ein hanghenion tystiolaeth ehangach a chreu'r Uned Strategaeth, Gallu ac Ymchwil Gwyddoniaeth newydd (SSCR). Mae pob un yn gyfrifol am faes penodol o gyflawniadau SERD:



Gwariant ar wyddoniaeth:

Mae gwariant ymchwil gwyddoniaeth 2019/20 wedi cynyddu i **£12.7 miliwn** o'i gymharu â 2018/19 (£10 miliwn), gan wrthdroi tuedd o ostyngiad a welwyd dros y blynyddoedd blaenorol. Y sbardunau allweddol yw mwy o allu i'n Pwyllgorau Cynghori Gwyddonol; mwy o alluoedd i wella gwyliadwriaeth strategol a chyflenwi prosiectau ymchwil yn gyflym.

Ffigur 4: Cyfanswm gwariant ar wyddoniaeth allanol fel cyfran o gyllideb yr ASB 2014-20



Meithrin partneriaethau gwyddoniaeth – cynnydd hyd yn hyn:



Gwella ein hymgylltiad allanol a datblygu partneriaethau gydag ystod o ranndeiliaid, creu partneriaethau newydd ac ennill cyllid i gyflawni ein blaenoriaethau.



Rydym ni wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ein rhaglenni diogelwch bwyd strategol gan gynnwys y rhaglen Trawsnewid Bwyd newydd, menter sy'n cysylltu partneriaid ag adrannau'r llywodraeth i sicrhau newid trawsnewidiol yn ein system fwyd.



Cryfhau gallu Pwyllgorau Cynghori Gwyddonol yr ASB yn sylweddol



Cynyddu aelodaeth y Gofrestr o Arbenigwyr i **300+ o arbenigwyr.**

Yn dilyn y cyfnod pontio, bydd angen i'r DU asesu diogelwch:



Ychwanegion bwyd



Deunyddiau â ddaw i gysylltiad â bwyd



Ychwanegion bwyd anifeiliaid

- Felly, rydym ni wedi
- sefydlu system o 3
- Grŵp Arbenigol ar y
- Cyd



Cyfanswm cost defnydd yr ASB o Bwyllgorau Cynghori Gwyddonol a'r Cyngor Gwyddoniaeth, cynnydd o £259 mil ers 2018/19. Mae'r cynnydd o ganlyniad i lwythi gwaith cynyddol a chefnogaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Cynghori Gwyddonol. Mae'r rolau hyn yn gyfrifol am gefnogi cynnydd mewn asesiadau risg, a fydd yn dychwelyd i ni wedi i ni Ymadael â'r UE.



Mae'r broses dadansoddi risg newydd wedi'i hymgorffori yn ein ffyrdd o weithio, gyda'r Prif Gynghorydd Gwyddonol yn goruchwyllo sicrwydd lefel uchel o elfennau asesu risg a thystiolaeth y broses.

Prif lwyddiannau:

Cyngor Gwyddoniaeth – Mae'r Cyngor Gwyddoniaeth wedi gwneud cynnydd gyda dau weithgor:

1

Nodi ac ystyried offer, technegau a thechnolegau data sy'n dod i'r amlwg a allai gael yr effaith fwyaf yn y dyfodol, a goblygiadau datblygiadau mewn data agored, rhannu data a sut y gallwn ni hyrwyddo mewn modd cyfrifol.

2

Adolygiad o'r strategaeth gorsensitifrwydd i fwyd, gan sicrhau bod ganddo fynediad at yr wyddoniaeth a'r dystiolaeth orau sydd ar gael i gefnogi cyflenwi gweithredoedd priodol ac effeithiol i sicrhau diogelwch bwyd a dewis y defnyddiwr.

Sgano'r gorwel



Cyflwyno system sgano'r gorwel newydd sy'n ein galluogi i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg a datblygiadau technolegol newydd yn well. Mae hyn yn cydlynu gwaith o fewn a thu allan i'r ASB gan ein galluogi i ragweld risgiau sy'n dod i'r amlwg yn well a diogelu defnyddwyr.

Adolygiad o strategaeth gallu a samplu labordai cenedlaethol

Sefydlu tîm i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag argymhellion i'r Llywodraeth ar wasanaethau labordy a'r cyllid sy'n ofynnol i gadw bwyd yn ddiogel.

Rydym ni hefyd wedi sefydlu gweithgor traws-lywodraeth i sicrhau dull ar y cyd ar gyfer:



Gallu labordai cenedlaethol



Strategaeth samplu gydlynol ac effeithlon

Meysydd o ddiddordeb ymchwil



Byddwn ni'n darparu dull mwy strategol o ymdrin â rhaglenni ymchwil a datblygu trwy gynyddu cydweithio o fewn y llywodraeth ac ar draws y gymuned academiaidd. Rydym ni wedi adolygu'r cwestiynau ymchwil sy'n ein hwynebu gan sicrhau bod holl anghenion yr ASB yn cael eu cefnogi gan ymchwil.

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR)

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld isod yn yr adran ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd.

Norofeirws, clefyd a gludir gan fwyd a chost salwch



O achosion wedi'u hamcangyfrif o salwch a gludir gan fwyd yn ôl adolygiad gwyddonol cyhoeddus a gynhaliwyd gennym. Cynnydd o 1.4 miliwn o amcangyfrifiad 2009. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi astudiaeth bum mlynedd arloesol yn mesur norofeirws mewn bwyd a gynhaliwyd gan gonsortiw m o wyddonwyr yn y DU. **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran clefyd a gludir gan fwyd uchod.**

Cannabidiol (CBD) a diogelwch bwyd



Mae CBD yn cael ei ddsbarthu fel bwyd newydd heb ei awdurdodi, heb fawr o wybodaeth yn y llenyddiaeth wyddonol gyhoeddus. Defnyddiodd y Pwyllgor ar Wenwyndra wybodaeth feddyginiaethol sydd ar gael i'r cyhoedd am CBD i nodi dosys lle gallai effeithiau andwyol ddigwydd ac unrhyw grwpiau sy'n agored i niwed. Fe wnaethom ddefnyddio hyn i argymhell y lefelau defnydd uchaf ac i gynghori menywod beichiog, menywod sy'n bwydo ar y fron a'r rhai sy'n cymryd meddyginiaeth i osgoi CBD.

Blaenoriaethau i'w hystyried yn y dyfodol



Bod yn barod ar gyfer y dyfodol

Parhau i adeiladu ac integreiddio ein tystiolaeth wyddonol, ein dulliau cadw gwyliaeth a'n gallu



Adeiladu rhagoriaeth wyddonol

Tyfu a datblygu galluoedd newydd a sicrhau mai'r ASB yw'r dewis cyntaf ar gyfer gwyddonwyr gyrfa



Adeiladu gallu technegol

Datblygu ac ehangu ein galluoedd technegol a gwneud yr ASB yn adran ddeniadol i arbenigwyr



Gwella gwaith dadansoddi risg yn barhaus

Gwella ein dulliau asesu risg a'n dulliau tuag at wyddoniaeth a sicrhau tystiolaeth yn barhaus



Ehangu ein dylanwad a'n heffaith

Gwella ein strategaeth gyfathrebu a'n hymgysylltu rhyngwladol o ran gwyddoniaeth

Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR)

Mae gwrthfotigau yn gyffuriau a ddefnyddir i drin heintiau bacteriol mewn pobl ac anifeiliaid. Nid ydynt yn effeithio ar feirysau na heintiau ffwngaid o gwbl. Gall defnydd amhriodol o wrthfotigau gynyddu'r tebygolrwydd o facteria yn addasu iddynt a'u gwrthsefyll.

Mae mynd i'r afael â'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan ymwrthedd gwrthficrobaidd yn flaenoriaeth strategol i'r DU. Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd y Llywodraeth ei gweledigaeth 20 mlynedd ar gyfer ymwrthedd gwrthficrobaidd a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol (NAP) 5 mlynedd (2019 i 2024), sy'n nodi'r camau sy'n ofynnol i gyflawni'r weledigaeth ac arafu datblygiad a lledaeniad ymwrthedd gwrthficrobaidd. Rydym ni'n parhau i gyfrannu at ddatblygu a chyflwyno'r NAP, trwy wella ein gwybodaeth am y rôl y mae'r gadwyn fwyd yn ei chwarae yn y mater hwn ac annog diwydiannau bwyd i leihau eu defnydd o wrthfotigau. Sefydlwyd Bwrdd Cyflenwi i oruchwyllo gwaith cyflenwi'r NAP a gwaith dan arweiniad yr ASB sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd.

Mae'r NAP yn pwysleisio'r angen am well diogelwch bwyd i gyfyngu ar halogi bwydydd ac ar ledaenu ymwrthedd ynghyd â:



Rhagor o waith ymchwil ar amrywiaeth a baich genynnau ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn bwydydd a microbiom y perfedd

- Mae hyn yn helpu i feintoli ymwrthedd gwrthficrobaidd trwy fwyd yn neiet y DU a llywio asesiadau risg



System gynhwysfawr i gadw gwyladwriaeth o'r gadwyn fwyd er mwyn monitro presenoldeb, lledaeniad a dirywiad ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn amser real



Mae angen ymchwil pellach i asesu effaith prosesu bwyd. Rydym ni'n parhau i gomisiynu ymchwil ac arolygon i wella ein gwybodaeth am rôl y gadwyn fwyd yng nghyd-destun ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Crynodeb o'r prif gyflawniadau o ran ymwrthedd gwrthficrobaidd hyd yma


Gwnaethom gyhoeddi canfyddiadau pedwaredd flwyddyn dau o'n harolygon ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn cyw iâr a fanwerthir:

Campylobacter ag ymwrthedd gwrthficrobaidd wedi'u hunigo o gyw iâr a fanwerthir yn y DU



Gellir gweld rhagor o fanylion am hyn yn yr arolwg manwerthu a'r adran rhannu data agored uchod.




Arolwg wedi'i gysoni gan yr UE o E. coli ag ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn cyw iâr a fanwerthir yn y DU




Mae canlyniadau cynnar yn awgrymu gostyngiad mewn halogiad E. coli ag ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn cyw iâr a fanwerthir yn y DU o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

- Mae hyn yn dangos bod rheolaethau tynnach ar ddefnyddio gwrthfotigau yn cael effaith gadarnhaol ar lefelau E. coli ag ymwrthedd gwrthficrobaidd a ganfyddir mewn cyw iâr, ond mae angen gwaith pellach i archwilio'r gydberthynas hon.

Er bod yr arolygon hyn yn darparu tystiolaeth bod bacteria ag ymwrthedd gwrthficrobaidd yn bresennol ar gyw iâr a werthir yn y DU, mae'n galonogol bod y lefelau a ganfyddir, ar eu gwaethaf, yn sefydlog ac ar eu gorau, yn lleihau. Mae'r risg o gael heintiau sy'n gysylltiedig ag ymwrthedd gwrthficrobaidd trwy fwyta neu baratoi cig wedi'i halogi yn parhau i fod yn isel iawn, os yw defnyddwyr yn dilyn arferion hylendid a choginio da.

	<p>Dechreuon ni raglen o ymchwil gwyddor gymdeithasol, gan gynnwys adolygiad llenyddol yn ymchwilio i ymwybyddiaeth, agweddau ac ymddygiad defnyddwyr a busnesau tuag at ymwrthedd gwrthficrobaidd yn y gadwyn fwyd ac ymddygiadau hylendid ymhlith defnyddwyr ac arlwywyr.</p>
	<p>Gwnaethom ddefnyddio ymchwil feintiol i ddeall ymwybyddiaeth a gwybodaeth am ffactorau gwrthficrobaidd sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth arlwywyr o ymwrthedd gwrthficrobaidd</p>
	<p>ac arolwg defnyddwyr i ddeall newidiadau o ran ymwybyddiaeth o ymwrthedd yn y gadwyn fwyd.</p>



Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yn y sector amaethyddiaeth wedi canolbwyntio ar dda byw.



Mae planhigion cnwd wedi'u trin â gwrthfotigau yn ffordd arall y gall bacteria ag ymwrthedd gwrthficrobaidd gyrraedd ein microbiom. Nid oes cymaint o adnabyddiaeth yn y maes hwn.

Yn dilyn defnydd cynyddol o wrthfotigau i drin afiechydon bacteriol mewn planhigion, **rydym ni wedi cydweithio ag Adran Iechyd Planhigion Defra ar adolygiad** sy'n crynhoi'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am raddau'r defnydd o wrthfotigau ar gnydau, i'n helpu ni i ddeall yn well y mater hwn sy'n dod i'r amlwg.

Gwnaethom gomisiynu Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaeth (CEFAS) i:



Adolygu'n feirniadol y llenyddiaeth wyddonol sy'n ymwneud ag amrywiaeth y micro-organebau sy'n cytrefu microplastigion ac agregau nanoplastigion

Amlinellu'r prif lwybrau y gall y plastigau hyn sydd wedi'u halogi'n ficrobiolegol gyrraedd y gadwyn fwyd o ffynonellau amgylcheddol a'r risgiau cysylltiedig y gallai'r rhain eu hachosi i iechyd pobl.



Aer



Pridd



Dŵr

Ymchwil cadw gwyliadwriaeth o ymwrthedd gwrthficrobaidd yn ôl niferoedd:

Gwaith cadw gwyliadwriaeth a gwblhawyd yn ddiweddar

2

Ymchwil a gwaith cadw gwyliadwriaeth parhaus

11

Ymchwil newydd bosibl

4

I gael rhagor o fanylion am achosion cadw gwyliadwriaeth o ymwrthedd gwrthficrobaidd unigol ewch i wefan yr ASB.

Bwyd a Chi

Mae Bwyd a Chi, sef ein harolwg blaenllaw o ddefnyddwyr, yn darparu ystadegau swyddogol am ymddygiadau hylendid bwyd, agweddau a gwybodaeth y cyhoedd yn ymwneud â diogelwch bwyd a materion bwyd eraill, fel siopa bwyd, bwyta allan, diogelwch bwyd ac alergeddau ac anoddefiadau bwyd. Defnyddir canlyniadau'r arolwg i fonitro ein cynnydd tuag at ein hamcanion strategol a helpu i nodi lle y gallai fod angen gweithredu neu gynnal ymchwil bellach. Mae'r arolwg yn cynhyrchu set ddata agored unigryw sy'n cael ei gwerthfawrogi gan lunwyr polisi a dadansoddwyr ar draws y Llywodraeth yn ogystal â chan y gymuned academiaidd ehangach.

Cynhaliwyd y cylch diweddaraf o waith maes (Cylch 5) rhwng Mehefin a Rhagfyr 2018 a chyhoeddwyd y canlyniadau yn 2019/20. Cymerodd sampl ar hap o 3,069 o oedolion (dros 16 oed) ran ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cyflwynir prif ganfyddiadau Cylch 5 isod.

O 2020 ymlaen, bydd yr arolwg Bwyd a Chi yn cael ei gyfuno ag Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd i ffurfio arolwg modiwlaidd newydd (Bwyd a Chi 2) sy'n defnyddio methodoleg gwthio ar y we gyda rhagor o samplau yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon. Bydd hyn yn caniatáu i ni ddadansoddi ymddygiadau yn erbyn agweddau.

Arferion siopa



43%

O'r ymatebwyr yn prynu bwyd o archfarchnadoedd bach, **+8 pwynt %** ers 2012.



O'r ymatebwyr yn defnyddio gwasanaeth dosbarthu i'r cartref gan archfarchnadoedd, **+7 pwynt %** ers 2012.


Bwyta allan



Beth sy'n bwysig wrth benderfynu ble i fwyta allan?



Sut mae hylendid yn cael ei asesu wrth fwyta allan?




Diogelwch bwyd yn y cartref



67
100

Sgôr Gyfartalog Mynegai Arfer a Argymhellir (IRP). Mae sgôr uwch yn dangos mwy o ymddygiadau sy'n unol ag arferion diogelwch bwyd argymhelledig. **+3 pwynt %** ers 2010.



Roedd sgôr yr IRP yn uwch i fenywod o'i gymharu â dynion.

Gwenwyn bwyd



O'r ymatebwyr wedi nodi ei bod hi'n debygol iawn eu bod wedi profi gwenwyn bwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gofynnwyd y cwestiwn rhwng Mehefin-Rhagfyr 2018).

74%

O'r ymatebwyr wedi cytuno eu bod nhw'n annhebygol o gael gwenwyn bwyd o fwyd wedi'i baratoi yn eu cartref eu hunain.


Hyder yn yr ASB



Byddai'r ASB yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd pe bai achos o wenwyn bwyd.



Mae'r ASB yn rhoi'r cyhoedd yn gyntaf.



Byddai'r ASB yn ymateb cyn gynted â phosibl i dystiolaeth newydd am ddiogelwch bwyd.



Mae'r ASB yn ddiudedd (yn gweithredu'n annibynnol o ffynonellau allanol).

Mynediad at y cyflenwad bwyd (food security)




10%

o'r ymatebwyr heb fynediad sicr at y cyflenwad bwyd (cartrefi â chyflenwad bwyd ansicr neu ansicr iawn).

10%

o'r ymatebwyr yn byw mewn cartrefi sydd â chyflenwad bwyd ymylol.



o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod wedi gorfod mynd heb fwyd pan nad oedd ganddynt arian i brynu rhagor.

Dewisiadau deietegol



Dim ond cyfran fach o ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn:




3%



1%

Bu gostyngiad hefyd o ran faint o gig coch a chig wedi'i brosesu sy'n cael eu bwyta unwaith yr wythnos. Bu llai o ostyngiad o ran cyw iâr a thwrci fel y gwelir isod:



Enw da ac ymddiriedaeth y cyhoedd

Rydym ni wedi tracio ymddiriedaeth y cyhoedd trwy arolwg tracio rheolaidd ers 2001. Mae cwestiynau'n ymdrin â sawl pwnc o ddiddordeb i'r ASB, sydd i'w gweld isod, ynghyd â phrif ganfyddiadau Cylch 19:

Materion bwyd sy'n peri pryder



31%

Wedi adrodd eu bod yn poeni am hylendid bwyd wrth fwyta allan (dim newid ers Cylch 18).

53%

Yn poeni am faint o siwgr sydd mewn bwyd.

57%

Yn poeni am wastraff bwyd (+ 6 pwynt canran o wahaniaeth ers Cylch 18).

Galw bwyd yn ôl



25%

o'r ymatebwyr wedi adrodd eu bod yn ymwybodol o rybudd galw bwyd yn ôl yn y deuddeg mis diwethaf.



+8 pwynt % ers cylch 18.

Gwenwyn bwyd



Salmonela ac E. coli oedd y mathau o wenwyn bwyd a oedd fwyaf adnabyddus (92% ac 86% yn y drefn honno), ac yna Listeria (61%) a Norofeirws (60%).

- Roedd 81% o'r ymatebwyr o'r farn y byddant fwyaf tebygol o gael gwenwyn bwyd o gyw iâr a thwrci amrwd, ac yna pysgod cregyn (57%) a bwyd tecawê wedi'i ailgynhesu (50%).



Mae ymwybyddiaeth o'r deg gweithgaredd a allai liniaru gwenwyn bwyd wedi cynyddu ers mis Mai 2018 (rhwng 4 ac 13 pwynt %).

Alergenau



Nododd **12%** fod ganddynt alergedd neu anoddefiad bwyd.



Nododd **8%** eu bod yn ymwybodol o reolau alergenau.



Nid oedd **42%** yn ymwybodol o reolau alergenau.

16%

Wedi adrodd eu bod yn poeni am argaeledd gwybodaeth am alergenau bwyd.



cynnydd o +13 pwynt % ers Cylch 18.

Ymwybyddiaeth ac ymddiriedaeth yn yr ASB



78%

Wedi clywed am yr ASB, **67%** wedi adrodd eu bod yn gwybod rhywfaint, neu lawer o wybodaeth am yr ASB.

7.0/10

Sgôr gyfartalog y mesur cyfansawdd o ymddiriedaeth yn yr ASB.

73%

o'r rhai hynny sy'n ymwybodol o'r ASB yn ymddiried ynddi i gyflawni ei swyddogaeth. +7 pwynt % ers Cylch 18.

Agweddau tuag at y system fwyd



80%

Yn hyderus bod bwyd wedi'i labelu'n gywir.

83%

Wedi adrodd bod ganddyn nhw ddigon o wybodaeth am yr hyn mae bwyd yn ei gynnwys.

65%

Yn hyderus bod y system fwyd yn cael ei rheoleiddio'n deg.

62%

Yn hyderus bod awdurdodau yn atal twyll bwyd yn effeithiol.

3.7/5

Sgôr gyfartalog y mesur cyfansawdd o ymddiriedaeth yn y system fwyd.




Hyrwyddo deunydd yr ASB yn Esbonio ar y cyfryngau cymdeithasu

Nod: Galluogi defnyddwyr nad ydynt yn arbenigwyr i ddeall ac i ymgysylltu â'n gwaith. Mae ein cyfres o adnoddau yr ASB yn Esbonio yn defnyddio gwerthoedd tystiolaeth, arbenigedd ac annibyniaeth i egluro'n wrthrychol y ffeithiau mwyaf perthnasol.


Pryd: Chwefror 2020

Gwariant: £19,000



Gwnaethom greu casgliad o fideos byr yn ymdrin ag ystod o bynciau er mwyn helpu i wella adnabyddiaeth defnyddwyr, hyder yn yr ASB ac i ddefnyddwyr ein hadnabod yn well fel y llais dibynadwy mewn perthynas â bwyd.


Ym mis Chwefror (10 i 29) gwnaethom hyrwyddo pedwar fideo byr ar Facebook, gan rannu gwybodaeth am Fwyd GM, Gorsensitifrwydd i Fwyd, Campylobacter a Listeria. Gwnaethom gynhyrchu dros **3.1 miliwn o gyfleoedd i weld** y fideos ac, yn fwy arwyddocaol, roeddent wedi'u gwyllo dros 352,400 o weithiau. Y fideo am Listeria oedd yr un a welwyd fwyaf, sef 211,800 o weithiau.




Arolwg Pobl

Mae Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn rhoi llais a chyfle i'n staff roi gwybod i uwch reolwyr beth sy'n eu helpu nhw i berfformio ar eu gorau a beth arall y gallwn ni ei wneud i gyfathrebu'n well ac i gydweithio'n fwy effeithiol. Rydym ni'n cael llawer o ddata ar yr hyn sydd angen ei wella ond hefyd ar yr hyn sy'n gweithio'n dda yn yr ASB. Cynhaliwyd yr arolwg hwn ym mis Hydref 2019 a chynyddodd sgôr ymgysylltu â gweithwyr yr ASB o 64% yn 2018 i 67% yn 2019, ein lefel ymgysylltu uchaf hyd yma. Mae sgoriau wedi cynyddu ym mhob un o'r naw thema allweddol gydag wyth allan o naw yn cyrraedd eu sgôr uchaf erioed. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn yr adran 'Arweinyddiaeth a Rheoli Newid' (+ 5 pwynt %).

Sgoriau Arolwg Pobl Gwasanaeth Sifil yr ASB 2009-2019



Ymgysylltiad Arolwg Pobl



25
Allan o 106 o sefydliadau

Mae'r ASB bellach yn cael ei hystyried yn Adran o'r Gwasanaeth Sifil sy'n Perfformio'n Uchel, gan **sgorio yn y 25% uchaf ar gyfer Ymgysylltiad**

Rydym ni wedi datblygu cynllun gweithredu corfforaethol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr arolwg pobl. Mae'r cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar **dair thema allweddol**:



Mae'r ffeithlun isod yn dangos y cynnydd mwyaf a'r gostyngiadau mwyaf mewn sgoriau % positif:



Cynnydd yn y rheiny sy'n credu bod yr ASB yn eu hysbysu am faterion sy'n effeithio arnyn nhw (70%)



Cynnydd yn y rheiny sy'n teimlo bod newid yn cael ei reoli'n dda yn yr ASB (47%)



Cynnydd mewn staff a fyddai'n argymhell yr ASB fel lle gwych i weithio (67%)



Gostyngiad yn nifer y staff sy'n teimlo bod eu gwaith yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad personol iddynt (79%)



Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n teimlo bod eu cyflog yn rhesymol o'i gymharu â phobl sy'n gwneud swydd debyg mewn sefydliadau eraill (23%)



Gostyngiad yn nifer y staff sy'n credu bod cyfleoedd i ddatblygu eu gyrfaedd yn yr ASB (58%)

Cyflenwi trwy Adeiladu Gallu

Er mwyn i ni gyflawni'r blaenoriaethau uchod, ac i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr, mae angen i ni fuddsoddi mewn adeiladu a datblygu ein galluoedd. Rydym ni wedi gwneud hyn trwy ganolbwyntio ar y meysydd allweddol isod.



Ein Ffyrdd Ni o Weithio (OWOW)

Amcan cyffredinol: Rydym ni wedi ceisio adeiladu sefydliad bywiog, blaengar sy'n dysgu ac sy'n denu a chadw'r staff gorau sy'n ymgysylltu, yn frwdfrydig i gyflawni, yn cydweithio ac yn cael eu harwain yn dda.



Terfynu'r Rhaglen OWOW a throsglwyddo unrhyw weithgareddau sy'n weddill i fusnes fel arfer

Crynodeb o'r cyflawniadau:

Yn 2019/20 cwblhawyd y rhaglen OWOW yn llwyddiannus gyda holl gerrig milltir hanfodol y rhaglen wedi'u bodloni. Nod Cam 3, yr elfen olaf, oedd sicrhau bod arfer gorau wedi'i ymgorffori, bod gwerth am arian yn cael ei ddarparu i drethdalwyr a bod gwell canlyniadau'n cael eu cyflawni i staff. Roedd gweithgareddau Cam 3 eraill yn cynnwys adolygiad o batrymau gweithio y Cynnig Pobl i wirio eu bod yn dal i fod yn addas at y diben, a gweithredu diweddariadau i'r broses ddewis a newid, gan gynnwys cyhoeddi contractau OWOW ar gyfer staff Gweithrediadau achlysurol ac egluro telerau ac amodau'r Gwasanaeth Hylendid Cig¹⁵. Roedd gweithgarwch o amgylch offer a thechnoleg yn canolbwyntio ar reoli newid i gynorthwyo staff o fewn Gweithrediadau Maes i ddefnyddio ffonau clyfar newydd a Chyfrifiaduron Ysgafn (cyfrifiaduron personol wedi'u cysylltu â rhwydwaith yr ASB) gan ddefnyddio ein dull Addas ar gyfer Newid (fframwaith 3 cham sy'n helpu rheolwyr i nodi camau'r broses newid), yn ogystal â chefnogi'r holl staff i ddefnyddio ein hoffer cydweithredu digidol. Gwnaethom hefyd barhau â'n prosiect Clive Alive i edrych ar wneud gwell defnydd o'r gofod yn ein gweithle yn Clive House, Llundain, a oedd yn cynnwys gweithredu ar ymatebion o arolwg staff, cynhyrchu canllawiau safon ymddygiad a chyflwyno meddalwedd monitro desgiau ac ystafelloedd cyfarfod. Bellach mae OWOW yn rhan o'n busnes fel arfer ac mae staff yn mwynhau cydbwysedd rhwng eu bywyd personol a'u gwaith sy'n cyd-fynd yn llwyr â'n hangen busnes.

Cyflenwi



Contractau Cynnig Pobl OWOW wedi'u hadolygu a'u cynnwys yn y broses recriwtio a sefydlu.



Rhagor o Bencampwyr Digidol yn gweithio i gynorthwyo staff i ddefnyddio offer cydweithredu digidol ar liniaduron a ffonau symudol.



Mae staff Gweithredol achlysurol sy'n gweithio ar y safle wedi cael contractau OWOW.



Hyfforddiant i gefnogi staff Gweithrediadau sy'n gweithio ar y safle i ddefnyddio'r Cyfrifiaduron Ysgafn newydd.



Datblygwyd canllawiau safon ymddygiad a gosodwyd meddalwedd ystafelloedd cyfarfod i fanteisio i'r eithaf ar y gweithle yn Clive House.

¹⁵ Sefydlwyd y Gwasanaeth Hylendid Cig ar 1 Ebrill 1995, gan gymryd drosodd dyletswyddau arolygu cig mewn safleoedd cig ffres gan awdurdodau lleol yng Nghymru, yn Lloegr ac yn yr Alban. Roedd y Gwasanaeth Hylendid Cig yn bodoli tan 31 Mawrth 2010, yna daeth yn rhan o'r ASB.



Strategaeth Pobl

Amcan cyffredinol:

Cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol wrth barhau i gyflenwi ein busnes craidd a pharhau i gydymffurfio â'n holl bolisiau ac arferion pobl. Rydym ni'n cyflawni hyn drwy adeiladu ein gallu i arwain a rheoli; cydnabod a gwerthfawrogi ymdrech unigol; ymdrechu i wella perfformiad a chefnogi gallu a datblygu sgiliau trwy ddarparu cyfleoedd i alluogi datblygiad gyrfaoel.

Amcanion ar gyfer 2019/20:



Cyflogi staff llawn cymhelliant ac angerdd a gwella ymgysylltiad i fod yn sefydliad sy'n perfformio'n uchel



Arwain staff trwy newid, trwy ymgorffori'r dull Addas ar gyfer Newid neu 'Fit for Change'



Cefnogi datblygiad yn unol â'r cynllun Sgiliau a Galluoedd



Datblygu uwch arweinwyr ac uwch reolwyr drwy sefydlu Fframwaith Datblygu Rheolwyr



Parhau i ymgorffori strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant yr ASB (2018-2020) ac i gryfhau a chefnogi rhwydweithiau staff



Cael cymeradwyaeth Swyddfa'r Trysorlys a'r Cabinet ar gyfer Strategaeth Tâl newydd, trafod gyda'r Undebau Llafur a'i lansio

Cyflenwi

Datblygu Sgiliau a Galluoedd ar gyfer y Dyfodol



Nodi a darparu sgiliau busnes hanfodol fel rhan o'r cynllun Galluoedd Strategol



Parhau i wella'r broses recriwtio ac ymsefydlu trwy lansio rhaglen Sylfaen yr ASB i staff newydd



Caffael darpariaeth E-ddysgu wedi'i theilwra i'r ASB



Cwblhau a chyhoeddi Cynllun Hyfforddiant Corfforaethol yr ASB gan ddiwallu gofynion hyfforddiant busnes i gyflawni blaenoriaethau'r ASB

Adeiladu Sefydliad Hynod Wydn ac Effeithiol



Achos busnes mewn perthynas â thâl wedi'i gymeradwyo gan Swyddfa Trysorlys a Chabinet EM (Ionawr 2020). Cynhaliwyd trafodaethau ar amodau tâl ac fe'u gweithredwyd ym mis Mawrth 2020



Datblygu ymhellach ac ymgorffori ein gwerthoedd ASPIRE yn ystod cyfnod llawn cyflogaeth ein gweithwyr



Gwell mesurau o ran Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws yr ASB gyda mwy o gefnogaeth i'r rhwydweithiau staff



Adolygu Dyluniad y Sefydliad, yn unol â Strategaeth yr ASB sy'n datblygu, a gweithredu newidiadau cam 1 a 2



Llenwi pob swydd hanfodol ar gyfer ymadael â'r UE ar amser neu'n gynt na'r disgwyl

Arwain a Rheoli trwy Newid Parhaus



Ymgorffori Model Addas ar gyfer Newid ar draws y sefydliad a chael adborth cadarnhaol arno



Parhau i ddatblygu ein rhaglen datblygu arweinwyr hyblyg a blaengar ar gyfer uwch arweinwyr



Lansio Fframwaith Hanfodion Rheoli'r ASB



Datblygu Strategaeth Talent ar raddfa lai sy'n cyd-fynd â chynllun rheoli perfformiad yr ASB



Data a Digidol

Amcan cyffredinol:

Darparu data a gwasanaethau gwyb i ddefnyddwyr a defnyddwyr busnes er mwyn cefnogi ein polisiau a'n hanghenion cyflawni gweithrediadau.

Amcanion 2019/20:



ASB wedi'i llywio gan ddata



Diweddarau systemau TG¹⁶



Datblygu gallu digidol



Datblygu gwasanaethau a chefnogaeth ddigidol



Diogelu gwytnwch data a busnes



Gwelliannau gwasanaeth rheoli

Crynodeb o'r cyflawniadau:



Gwnaethom barhau i ailadrodd a chofleidio dulliau arloesol a modern sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan ein galluogi ni i gael ein gyrru gan wasanaeth. Gwnaethom groesawu mesurau goruchwylio tryloyw i gadw rheolaeth bortffolio o'n gwasanaethau o'r cychwyn cyntaf hyd at eu gweithredu gan sicrhau ein bod yn cefnogi anghenion defnyddwyr ac anghenion busnes. Gwnaethom hyrwyddo dulliau bod yn agored trwy sicrhau bod ein data ar gael a thrwy rannu sut rydym ni'n gweithio. Gwnaethom gefnogi'r busnes gydag offer a gwasanaethau i adeiladu gwytnwch a chydweithio mewn ffyrdd arloesol parhaus.

Gwnaethom wella ansawdd data, gan sicrhau bod defnyddwyr yn treulio llai o amser yn darganfod, yn deall, yn trin ac yn glanhau data. Gwnaethom fapio ecosystem ddata fanylach i ddeall endidau hanfodol yr ASB ac er mwyn safoni. Gwnaethom fodelu setiau data newydd yn rhan o waith adrodd ar ansawdd, gan sicrhau bod gan ddefnyddwyr feysydd, amseroedd a phobl wedi'u rhannu i gymharu data â nhw.

Elfennau pellach a gyflawnwyd

Datblygu ac ymwreiddio Gwasanaeth Cadw Gwylidwriaeth newydd a datblygu dull rhagfynegi risg, gan ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial i yrru ymyriadau craffach a arweinir gan ddata

Ymgorffori egwyddorion diogelwch a phreifatrwydd wrth ddylunio gwasanaethau, gan sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Rheoliad GDPR o'r cychwyn cyntaf

Symud o'r cam pilot i gyflwyno ein gwybodaeth fusnes gorfforaethol yn llawn

Gweithredu ail gam pilot gwasanaeth dosbarthu cyfriflyfrau ar dystysgrifau iechyd allforio porc

Darparu hyfforddiant a chanllawiau ar draws sawl sianel i wneud y defnydd gorau o'n hoffer digidol

¹⁶ O gyfeiriadau at wasanaethau sy'n cynnwys cydrannau sy'n gyson gyffredol. Mae'n cwmpasu'r gwasanaethau i ddefnyddwyr a'r holl seilweithiau sylfaenol.


Data agored

Mae data agored yn ddata sydd ar gael yn rhwydd ar-lein i bawb ei gyrchu, ei ddefnyddio a'i rannu. Un o'n hamcanion yw dod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata a bod ein data yn 'agored yn ddiodyn'. Mae ein catalog data agored ar gael drwy <https://data.food.gov.uk/catalog>

Eleni rydym ni wedi gwneud cynnydd mawr wrth gyflawni ein targed o gyhoeddi cymaint ag y gallwn o'n data fel data agored, gan helpu defnyddwyr i sicrhau bod eu data'n addas i'w gyhoeddi, a darparu'r sgiliau a'r offer iddynt ei gyhoeddi eu hunain. Yn 2020/21 rydym ni eisiau cynnal ein cyfraddau cyhoeddi a chanolbwyntio ar wella ansawdd ein setiau data a'u dogfennaeth ategol.


Mae'r siartiau isod yn dangos cynnydd wrth gyflawni ein nod 'agored yn ddiodyn'.

Cynnydd cyhoeddi data agored: Nodwyd 333 o setiau data:




Targed: Cyflawni cyfran mor uchel o ddata cyhoeddiedig ag sy'n bosibl, gan gyfrif am ddata na ellir ei gyhoeddi am resymau diogelu data, masnachol, diogelwch neu resymau cysylltiedig eraill.

Sgôr bod yn agored o 2,693 o ffeiliau cyhoeddiedig:



Rhoddir sgôr syml yn seiliedig ar y system 'Pum Seren Bod yn Agored' a ddatblygwyd gan Tim-Berners-Lee. Mae'r meini prawf yn seiliedig ar fformat ffeil cyhoeddiedig a'n targed yw 3 seren.

Nifer y bobl sydd wedi gweld y catalog data ar-lein yn ôl maes diddordeb:



Y prif risgiau ac elfennau ansicrwydd

Gwnaethom nodi ein dull o reoli risg fel rhan o Ddatganiad Llywodraethu'r ASB 2019/20 ar dudalen 96. Caiff risgiau'r ASB eu **nodi, eu hasesu, eu rheoli, eu hadolygu a'u cofnodi** ar y lefel briodol ar draws yr ASB. Caiff llywodraethu ei ddarparu trwy:

- eithriad misol
- adolygu bob chwarter, gan sicrhau bod y risgiau cywir yn cael eu blaenoriaethu, ac
- yn flynyddol fel rhan o'r broses cynllunio busnes corfforaethol

Defnyddir **Cofrestrau Risg** i gofnodi ein risgiau, ein helpu i asesu, blaenoriaethu gweithredoedd a monitro cynnydd.

Er mwyn cyflenwi 'Bwyd y gallwn ymddiried ynddo' wrth reoli adnoddau sy'n prnhau ac ansicrwydd allanol, rydym ni'n awyddus i gymryd risgiau ystyriol a manteisio ar gyfleoedd ac arloesi. Gall ein dull o arloesi fod yn wahanol yn dibynnu ar natur y risg, felly, rydym ni'n alinio risgiau â themâu sydd i'w gweld isod:



Bwyd y gallwn ni ymddiried ynddo




Cyflenwi Gweithredol/ Polisi



Cydymffurfiaeth/ Rheoleiddio Cyfreithiol



Enw da/ Hygrededd






Ariannol/Gwerth am arian




Mae risgiau'r ASB yn cael eu nodi a'u categorio fel a ganlyn:




Mewnol	Allanol	Strategol	Newid sylweddol
Twyll	Dirywiad economaidd	Digwyddiad bwyd	Gofynion yn newid
Iechyd a diogelwch	Ymosodiad maleisus	Rheolaeth reoleiddiol	Peidio â chadw at yr amserlen gyflenwi
Capasiti a gallu	Tywydd eithafol	Hygrededd	Methu â chyflenwi
Diogelwch data	Pwysau gan bartneriaid cyflenwi	Ymddiriedaeth	
Partneriaid cyflenwi	Cyfyngiadau cyllidol		
	Ansicrwydd yn y diwydiant		

Er mwyn cefnogi gwaith dadansoddi, trin a monitro priodol, ein polisi yw defnyddio cofrestrau risg (y mae nifer ohonynt yn orfodol) fel rhan o'n dulliau rheoli. Lle bo hynny'n briodol, defnyddir cofrestrau risg i gofnodi risgiau a gaiff eu huwchgyfeirio neu eu hisgyfeirio, eu trosglwyddo neu eu hāgregu i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli ar y lefel fwyaf priodol o fewn yr ASB a chan y rhai sydd yn y rolau mwyaf addas i wneud penderfyniadau o ran sut orau i fynd i'r afael â nhw.

Cofrestr risg gorfforaethol

Risg	Camau lliniaru allweddol
